Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Ystyried Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU: Cadernid a pharodrwydd

Archwilio'r bylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod y pandemig COVID-19

Mawrth 2026



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
X: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Ystyried Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU: Cadernid a pharodrwydd

Archwilio'r bylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod y pandemig COVID-19

Mawrth 2026

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **8**

**1. Cyflwyniad** .......... **13**

Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus .......... 15

Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU ac ymateb Llywodraeth Cymru .......... 15

Fframwaith Gwydnwch Cymru .......... 16

Modiwlau yn y dyfodol ar gyfer Ymchwiliad COVID-19 y DU .......... 17

Barn y Pwyllgor .......... 17

**2. Llywodraethu, atebolrwydd a chydgysylltu strwythurau gwydnwch** .......... **19**

Cymhlethdod parhaus o fewn strwythurau gwydnwch Cymru .......... 20

Heriau i ymatebwyr cenedlaethol .......... 22

Monitro a chraffu annibynnol ar gynnydd .......... 23

Ymateb Llywodraeth Cymru .......... 27

Barn y Pwyllgor .......... 30

**3. Ymarfer Pegasus** .......... **37**

Cwmpas yr ymarfer .......... 38

Cipio'r gwersi o ymarferion amlasiantaeth .......... 39

Cyfranogiad anghyson y sector gwirfoddol .......... 41

Ymateb Llywodraeth Cymru .......... 42

Barn y Pwyllgor .......... 43

**4. Cyfraniad y sector gwirfoddol at wydnwch** .......... **47**

Tanddefnyddio'r sector ....................47

Rhannu data rhwng asiantaethau statudol a sefydliadau gwirfoddol ....................49

Cyfathrebu a negeswyr dibynadwy ....................51

Cyllid brys ....................52

Ymateb Llywodraeth Cymru ....................54

Barn y Pwyllgor ....................56

**5. Anghydraddoldebau cymdeithasol .................... 61**

Effeithiau anghymesur ar gymunedau agored i niwed a phwysigrwydd cyd-gynhyrchu ....................62

Ymateb Llywodraeth Cymru ....................64

Barn y Pwyllgor ....................65

**6. Data .................... 69**

Argaeledd a defnydd data ....................70

Mynediad cynnar at gyngor gwyddonol ....................71

Bylchau mewn data ....................71

Ymateb Llywodraeth Cymru ....................72

Barn y Pwyllgor ....................74

**Atodiad 1 : Rhestr o dystiolaeth lafar .................... 78**

**Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ....................80**

**Atodiad 3 : Cefndir deddfwriaethol a chyrff argyfyngau sifil posibl yng Nghymru .................... 81**

Cefndir deddfwriaethol ....................81

Trefniadaeth cyrff gwydnwch ac argyfyngau sifil posibl yng Nghymru ....................81

# Rhagair y Cadeirydd

Y pandemig COVID-19 oedd un o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol a dinistriol o fewn cof. Arweiniodd yn drasig at golli bywydau, a rhoddodd straen digynsail ar ein systemau iechyd, gofal ac addysg yn ogystal â'n heconomi a'n cyllid cyhoeddus. Cyffyrddodd â phob cymuned, tarfodd ar fywydau a busnesau, a datgelodd anghydraddoldebau dwfn ar draws ein cymdeithas. I lawer, mae ei ganlyniadau'n dal i gael ei deimlo nawr, a bydd hynny'n wir am ddegawdau i ddod.

Fel Senedd, mae'n ddyletswydd arnom i'r rhai a gollodd anwyliaid, sydd wedi dioddef goblygiadau iechyd hirdymor, ac a gariodd faich yr ymateb, i archwilio'n agored ac yn onest y penderfyniadau a effeithiodd ar brofiad Cymru o'r pandemig a sicrhau ein bod yn craffu'n gadarn arnynt. Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli cyfraniad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at y dasg hanfodol honno, gan adeiladu ar ganfyddiadau Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU a gwaith Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru. Fel Pwyllgor, roeddem yn teimlo ei bod yn hollbwysig bod y Senedd yn cael cyfle i graffu ar i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Modiwl 1, digonolrwydd y newidiadau a wnaed i'w dull o gynllunio ar gyfer argyfyngau sifil, a'i pharatoadau ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol.

Clywsom am y diwygiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno ers y pandemig, gan gynnwys datblygu Fframwaith Gwydnwch Cymru, ailgyfansoddi Fforwm Gwydnwch Cymru, a chamau i gryfhau llywodraethu a rheoli risg. Ac eto, er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, mae ein gwaith yn tynnu sylw at bryderon parhaus, yn enwedig mewn perthynas â monitro, atebolrwydd a chraffu annibynnol ar drefniadau gwydnwch a pharatoadau diwygiedig Cymru.

Teimlai teuluoedd mewn galar a rhanddeiliaid eraill fod llawer o adroddiadau Llywodraeth Cymru ar gynnydd yn rhy ddibynnol ar hunanasesiad, heb ddigon o wirio annibynnol. Gwnaethant bwysleisio, er y gallai strwythurau fod wedi'u symleiddio ar bapur, nad oes digon o dystiolaeth ar gael i'r cyhoedd i ddangos pa mor effeithiol y mae'r systemau diwygiedig hyn yn gweithio'n ymarferol, neu a fyddent yn gwrthsefyll pwysau argyfwng mawr arall. Felly mae'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad nad yw system Cymru ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd ei threfniadau argyfyngau sifil posibl yn ddigon cadarn o hyd, gyda gorddibyniaeth ar hunan-adrodd i asesu a yw'r strwythurau diwygiedig yn cyflawni gwelliannau mesuradwy i'r ffordd rydym yn ymateb i argyfyngau. Mae asesiadau cyfredol yn dibynnu'n fawr ar farn ansoddol, megis adborth heb ei gyhoeddi gan ymatebwyr neu ddiffyg

aflonyddwch amlwg yn ystod digwyddiadau diweddar, yn hytrach na thystiolaeth fesuradwy, wedi'i chadarnhau'n annibynnol. Gwnaeth rhanddeiliaid arbenigol achos cryf dros yr angen am ddangosyddion perfformiad clir, yn seiliedig ar arfer gorau rhyngwladol, i werthuso parodrwydd Cymru ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol ac effeithiolrwydd ein mecanweithiau ymateb.

Clywsom hefyd, er gwaethaf diwygiadau sylweddol ers y pandemig, fod system argyfyngau sifil posibl Cymru yn parhau i fod yn gymhleth, gyda phwysau sylweddol yn cael eu rhoi ar ymatebwyr cenedlaethol y disgwylir iddynt wasanaethu nifer o strwythurau ymateb lleol ar yr un pryd. Clywsom fod angen gwell cydgysylltu, llwybrau uwchgyfeirio cliriach, gwell aliniad trawsffiniol, a mapio manwl o strwythurau argyfyngau sifil posibl i roi hyder i ymatebwyr yn y ffordd y mae penderfyniadau'n llifo yn ystod argyfyngau.

Clywsom pa mor hanfodol yw ymarferion parodrwydd rheolaidd i wneud yn siŵr bod ein systemau ymateb yn gweithio'n effeithiol a'n bod yn barod i ymateb i amrywiaeth o senarios posibl. Ac eto, rydym yn parhau i bryderu am yr heriau o ran adnoddau sy'n wynebu ymatebwyr i argyfyngau sydd angen cydbwyso cynnal gwasanaethau'r rheng flaen â pharatoi ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol. Felly, mae'r Pwyllgor yn pwysleisio'r angen am ddull cenedlaethol mwy cydgysylltiedig o amserlennu, darparu adnoddau a chydgysylltu ymarferion, gan sicrhau nad yw ymatebwyr yn cael eu gorlwytho a bod gwersi'n cael eu casglu a'u rhannu'n systematig. Mae cryfhau'r cymorth hwn yn hanfodol os yw Cymru am ymgorffori dysgu, cynnal cof sefydliadol, a sicrhau bod systemau ymateb i argyfyngau yn cael eu profi o ran straen yn erbyn yr ystod lawn o senarios a allai wynebu Cymru yn y dyfodol.

Tynnodd ein gwaith sylw at y rôl hanfodol y mae sefydliadau gwirfoddol Cymru yn ei chwarae wrth gryfhau gwydnwch cenedlaethol. Ac eto mae'r un mor amlwg nad yw potensial y sector hwn i gefnogi ein hymdrechion ymateb ac adfer yn cael ei wireddu'n llawn, gyda sefydliadau gwirfoddol yn rhy aml yn aros ar y cyrion o ran gwneud penderfyniadau, strwythurau cynllunio argyfyngau ac adnoddau. Clywsom hefyd bryderon dro ar ôl tro bod rhwystrau i rannu data a diffyg model ariannu brys ystwyth yn llesteirio eu gallu i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol. Mae hyn er gwaethaf enghreifftiau yn ystod y pandemig a ddangosodd y gellir goresgyn yr heriau hyn pan fo ewyllys i wneud hynny. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell integreiddio'r sector gwirfoddol yn fwy systematig i drefniadau argyfyngau sifil posibl Cymru, wedi'i gefnogi gan fecanweithiau gwell ar gyfer rhannu data yn gyfreithlon ac yn amserol, a model ariannu sy'n sicrhau bod y

sector yn gallu cyfeirio arian i'r mannau lle mae eu hangen fwyaf a bod ganddo adnoddau digonol i gyfrannu pan fydd galw amdanynt.

Fel Pwyllgor, rydym wedi mynd ati i wneud y gwaith hwn gyda bwriad clir: sicrhau bod gwersi anodd y pandemig yn arwain at welliannau gwirioneddol a pharhaol i bobl Cymru. Ein bwriad fu nid yn unig craffu ond cyfrannu'n adeiladol at ddatblygu system argyfyngau sifil posibl sy'n gadarn, wedi'i phrofi o ran straen, y craffwyd arni'n annibynnol, ac sy'n gallu amddiffyn ein cymunedau. Rhaid inni ddysgu gwersi'r pandemig a gwella ein systemau parodrwydd i wneud Cymru yn fwy gwydn, wedi'i diogelu'n well, ac yn gallu ymateb i'r heriau y byddwn yn anochel yn eu hwynebu yn y dyfodol. Nid yw pobl Cymru yn haeddu dim llai.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth, yn enwedig unigolion a theuluoedd a rannodd brofiadau personol iawn. Roedd eu cyfraniadau'n amhrisiadwy. Ein gobaith diffuant yw y bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod yr aberth a wnaed yn ystod y pandemig yn cael ei anrhydeddu drwy ddiwygio go iawn.

**Mark Isherwood AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd nesaf yn blaenoriaethu archwilio pob un o fodiwlau'r ymchwiliad sy'n weddill er mwyn sicrhau eu bod yn destun gwaith craffu trylwyr, tryloyw ac amserol........................................................Tudalen 18

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer mapio annibynnol o strwythurau argyfyngau sifil posibl Cymru i ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch am rolau a chyfrifoldebau, hierarchaethau gwneud penderfyniadau, llinellau atebolrwydd a llifau cyfathrebu. I gyd-fynd â hyn, dylid cyhoeddi canllawiau syml a chydgysylltiedig sy'n egluro sut y dylai'r strwythurau hyn weithio cyn, yn ystod ac ar ôl sefyllfa argyfwng. ...............................................Tudalen 31

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau cenedlaethol ar amserlennu a chydgysylltu cyfarfodydd y Grŵp Cydgysylltu Strategol a'r Grŵp Cydgysylltu Tactegol er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth glir o brotocolau ar gyfarfodydd ac i gefnogi ymatebwyr sy'n gweithredu ar draws nifer o Fforymau Lleol Cymru Gydnerth. Dylai'r canllawiau hyn hefyd ddarparu manylion am y meini prawf sy'n penderfynu pryd y mae angen uwchgyfeirio digwyddiadau o strwythurau ymateb lleol i rai cenedlaethol, a'r llwybrau ar gyfer gwneud hynny. ..........................................................................Tudalen 31

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi trefniadau ymarferol, pendant ar waith i sicrhau y gall ymatebwyr cenedlaethol weithio gyda'r pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth mewn ffordd fwy cydgysylltiedig heb ddyblygu diangen. ..................................................................Tudalen 31

**Argymhelliad 5.** Y tu ôl i'r holl systemau parodrwydd a gwydnwch brys mae'r staff ymroddedig o fewn sefydliadau ymatebwyr sy'n gweithio'n ddiflino i gadw pobl yn ddiogel ac i leihau effaith argyfyngau, yn aml yn rhoi eu hunain mewn perygl wrth amddiffyn eraill. Mae'r Pwyllgor yn dymuno cofnodi ein diolch diffuant i'r ymatebwyr brys a'r gwirfoddolwyr o bob cwr o Gymru am eu gwasanaeth a'u hymrwymiad i ddiogelu ein cymunedau. ..........................................................Tudalen 31

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, erbyn mis Rhagfyr 2026, yn cyhoeddi strategaeth gweithlu parodrwydd am argyfyngau sy'n nodi sut y bydd yn sicrhau bod strwythurau argyfyngau sifil posibl diwygiedig Cymru yn cael eu hategu gan weithlu cynaliadwy a gwydn gyda'r gallu, y sgiliau a'r sefydlogrwydd hirdymor sydd eu hangen i ymateb yn effeithiol i argyfyngau yn y dyfodol. ..........................................................................................................................Tudalen 32

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o ddangosyddion perfformiad meintiol i asesu effeithiolrwydd systemau argyfyngau sifil posibl Cymru, gan gynnwys lefelau parodrwydd, amseroedd ymateb, cyfranogiad mewn ymarferion a gweithredu gwersi a ddysgwyd. Dylid adrodd yn erbyn y dangosyddion hyn yn flynyddol. .................... Tudalen 33

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu mecanwaith priodol ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd ac annibynnol o drefniadau argyfyngau sifil posibl Cymru. Dylai'r mecanwaith hwn ddarparu gwaith craffu trylwyr ac annibynnol tra'n parhau i fod yn gymesur, yn gynaliadwy ac yn gost-effeithiol. Wrth benderfynu ar y dull mwyaf addas, dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio sefydliadau presennol at y diben hwn. .................... Tudalen 35

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dangosfyrddau cyhoeddus i fonitro ei chynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion Ymchwiliad COVID-19 y DU ac unrhyw argymhellion dilynol a wneir gan archwiliadau allanol annibynnol, er mwyn gwella tryloywder o ran gwneud penderfyniadau ac i alluogi gwaith craffu effeithiol. .................... Tudalen 35

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fersiwn gyhoeddus o Gofrestr Risg Genedlaethol Cymru i ddarparu asesiadau cyfredol o debygolrwydd ac effaith bosibl yr ystod o risgiau a allai effeithio'n uniongyrchol ar Gymru a'r cyhoedd yn gyffredinol. .................... Tudalen 36

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu uned hyfforddi ac ymarfer amlasiantaeth genedlaethol—tebyg i SMARTEU yr Alban—i gydgysylltu ymarferion i brofi'r ystod lawn o risgiau a nodwyd yn y gofrestr risg genedlaethol, lliniaru'r heriau o ran adnoddau y mae sefydliadau sy'n cymryd rhan yn eu hwynebu a lledaenu dysgu i asiantaethau partner. .................... Tudalen 45

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod strwythurau parodrwydd diwygiedig Cymru, Cofrestr Risg Genedlaethol Cymru, ac ymarferion amlasiantaeth yn y dyfodol yn cyfrif yn llawn ar gyfer senarios risg cyfansawdd ac yn cynllunio ar gyfer ymateb iddynt. .................... Tudalen 45

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i integreiddio'n llawn gofal cymdeithasol a sectorau hanfodol eraill mewn gwaith cynllunio, cyflawni a gwneud penderfyniadau. .................... Tudalen 45

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno protocol ymgysylltu ffurfiol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol mewn

ymarferion amlasiantaeth, gan sicrhau mynediad cyfartal at wybodaeth, rolau diffiniedig, a chyfleoedd i gyfrannu at waith cynllunio a chyflawni. ..............Tudalen 46

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith safonol ar gyfer cydweithredu rhwng ymatebwyr Categori 1 a sefydliadau gwirfoddol, i sicrhau bod y sefydliadau hyn wedi'u hintegreiddio'n ffurfiol mewn trefniadau ymateb i argyfyngau. ..............Tudalen 58

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru greu cofrestr Cymru gyfan o alluoedd y sector gwirfoddol, gan gynnwys llwybrau gweithredu clir i alluogi symud a chydgysylltu cyflym yn ystod argyfyngau. ..............Tudalen 58

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system sy'n hwyluso rhannu data amserol, cyfreithlon rhwng asiantaethau statudol a phartneriaid gwirfoddol yn ystod argyfyngau, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion diogelu data wrth alluogi sefydliadau gwirfoddol i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol. Dylai system o'r fath wneud darpariaethau cyfreithiol sy'n caniatáu llacio rheoliadau diogelu data yn ystod sefyllfaoedd o argyfwng..............Tudalen 58

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnal seilwaith presennol y trydydd sector, ac edrych i weld sut y gellir gwella'r strwythurau hyn a'u gwneud hyd yn oed yn fwy cadarn er mwyn sicrhau bod y sector gwirfoddol wedi'i wreiddio o'r cychwyn cyntaf mewn cynllunio ac ymarferion gwydnwch..............Tudalen 59

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith sefydlog cyllid mewn argyfwng gyda phartneriaid gwirfoddol dibynadwy er mwyn galluogi symud adnoddau'n gyflym yn ystod argyfyngau. ..............Tudalen 60

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol a sefydliadau comisiynu i hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o fecanweithiau ariannu hirdymor a fydd yn cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith, gwella gwydnwch y sector, a gwella eu gallu i ymdopi â'r cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau yn ystod argyfyngau. ..............Tudalen 60

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn integreiddio sefydliadau a rhwydweithiau cymunedol sy'n cynrychioli'r ystod o nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ffurfiol i strategaethau cyfathrebu brys, gan sicrhau bod negeseuon a dulliau lledaenu yn

cael eu cyd-gynllunio ac yn adlewyrchu profiad byw ac anghenion cyfathrebu penodol pobl anabl sydd â namau gwahanol. ........................................................ Tudalen 68

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanweithiau ffurfiol ar gyfer ymgysylltiad cyson â sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau ethnig leiafrifol, gwledig a chymunedau ymylol eraill, fel paneli cynghori sefydlog neu gofrestr o bartneriaid cymunedol ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod eu dealltwriaeth yn llywio gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf. ........................................................ Tudalen 68

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol i ymgorffori asesiadau bregusrwydd systematig yng Nghofrestr Risg Cenedlaethol Cymru, cofrestrau risg cymunedol, a chynllunio argyfyngau sifil posibl, gan sicrhau bod yr asesiadau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth, yn fesuradwy ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu risgiau sy'n dod i'r amlwg a'u heffeithiau posibl ar gymunedau sy'n agored i niwed. ................. Tudalen 68

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ymarferion parodrwydd amlasiantaeth yn y dyfodol yn cynnwys asesiad gorfodol o effaith debygol gwahanol argyfyngau ar grwpiau nodweddion gwarchodedig a phobl sy'n byw mewn anfantais gymdeithasol-economaidd ac effeithiolrwydd ymyriadau i liniaru'r effeithiau hyn. ........................................................ Tudalen 68

**Argymhelliad 25.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ar frys pa gynlluniau wrth gefn y bydd yn eu rhoi ar waith i sicrhau capasiti ymchwydd, gallu olrhain cysylltiadau torfol a mynediad amlasiantaeth os caiff y system rheoli diogelu iechyd newydd a Set Data Gofal Brys Cymru eu gohirio y tu hwnt i hydref 2026. ........................................................ Tudalen 74

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau cynrychiolaeth gynnar a gweithredol ar fforymau cynghori gwyddonol y DU fel bod Cymru mewn sefyllfa i ddylanwadu ar ganllawiau a gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach nag ymateb ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud. ........................................................ Tudalen 75

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn data parhaus, gan gynnwys gwella cyflawnrwydd a manylder data cydraddoldeb ar draws GIG Cymru, ac ymgorffori dangosyddion cymdeithasol ehangach mewn setiau data gwydnwch i alluogi ymyriadau wedi'u targedu a mapio bregusrwydd mewn modd mwy cywir. ........................................................ Tudalen 76

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhaglen bwrpasol o brosesau archwilio deallusrwydd artiffisial a gwydnwch digidol fel rhan o Fframwaith Gwydnwch Cymru. Dylai'r rhaglen hon sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn effro i risgiau digidol sy'n dod i'r amlwg—gan gynnwys seiber-ymosodiadau, gwendidau systemau, a lledaenu camwybodaeth a thwyllwybodaeth—a bod Llywodraeth Cymru yn gallu cael mynediad at gyngor arbenigol amserol i gryfhau parodrwydd, a diogelu seilwaith digidol hanfodol. ........ Tudalen 77

# 1. Cyflwyniad

**1.** Sefydlwyd Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru (Pwyllgor Diben Arbennig Cymru) ar 16 Mai 2023.[1]

**2.** Cylch gwaith y Pwyllgor oedd:

a. Ystyried yr adroddiadau yn y camau unigol o Ymchwiliad COVID-19 y DU ac yng nghyd-destun cylch gorchwyl ac amserlen Ymchwiliad COVID-19 y DU, cynnig i'r Senedd, drwy gynnig, y dylai unrhyw fylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig COVID-19 gael eu harchwilio ymhellach.

b. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, cynnal adolygiad o'r meysydd hynny a nodwyd ar gyfer archwilio pellach.

c. Cyhoeddi adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

**3.** Cyhoeddwyd adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2024.[2] Daeth i'r casgliad bod systemau gwydnwch yng Nghymru yn dameidiog, yn aneffeithlon, ac yn ddiangen o gymhleth, a nododd ddeg argymhelliad allweddol i gryfhau parodrwydd ar gyfer y dyfodol.

**4.** Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Modiwl 1, ymgymerodd Pwyllgor Diben Arbennig Cymru â gwaith i nodi unrhyw fylchau ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod y pandemig, sy'n ymwneud â chylch gwaith Modiwl 1.

**5.** Wrth baratoi ei adroddiad, defnyddiodd Pwyllgor Diben Arbennig Cymru raglen waith ehangach, gan gynnwys Dadansoddiad annibynnol o'r Bylchau, a gomisiynwyd gan Brifysgol Nottingham Trent[3], digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o bob sector allweddol[4], ac ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Ionawr 2025.[5] Llywiodd

[1] Cyfarfod Llawn y Senedd, Cofnod y Trafodion, 16 Mai 2023
[2] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024
[3] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o'r Bylchau - Modiwl 1 - Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 (Saesneg yn unig), Chwefror 2025
[4] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru, Digwyddiad i Randdeiliaid ar Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y Deyrnas Unedig: Dogfen Gryno, Ionawr 2025
[5] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru, Ymgynghoriad Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU, Ionawr 2025

y dystiolaeth ychwanegol hon asesiad Pwyllgor Diben Arbennig Cymruo ba un a oedd yr adroddiad Modiwl 1 yn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau penodol Cymru yn ddigonol.

**6.** Cyhoeddodd Pwyllgor Diben Arbennig Cymru ei adroddiad i Fodiwl 1 ar 26 Mawrth 2025.[6] Nododd yr adroddiad nifer o fylchau, y dywedodd y dylid eu harchwilio ymhellach. Nododd y Senedd y bylchau a nodwyd gan Bwyllgor Diben Arbennig Cymru, a chytunodd drwy gynnig ar 16 Gorffennaf 2025 i:

a. adolygu'r model gwytnwch a pharodrwydd mwyaf effeithiol i Gymru;

b. dysgu'n effeithiol gan Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a'r rhai sydd â diddordeb arbennig mewn grym gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag argyfyngau sifil posibl yng Nghymru ar sut y gellir egluro rolau a chyfrifoldebau yn well a gwella atebolrwydd;

c. adolygu'r ffyrdd y cafwyd mynediad at ddata a sut y rhannwyd data yng Nghymru yn fertigol ac yn llorweddol yn ystod argyfyngau;

d. ystyried effeithiolrwydd eglurder, amseroldeb, cydgysylltiad, ac integreiddio cyfleu polisi a chanllawiau sy'n ymwneud â'r negeseuon cyhoeddus am y pandemig a sut y gellir gwella hyn yn y dyfodol;

e. adolygu'r angen i egluro'n well y rhyngweithio rhwng argyfyngau sifil posibl sy'n croesi ffiniau a lle mae cyfrifoldebau'n cael eu rhannu, yn aneglur neu'n gymhleth;

f. adolygu sut y gellir rhannu arferion a phrosesau gwytnwch blaenllaw ar draws sefydliadau perthnasol yng Nghymru;

g. adolygu sut y gellid ymgorffori'n well anghydraddoldebau cymdeithasol yng nghyd-destun Cymru yn y prosesau a'r strwythurau parodrwydd a gwytnwch;

h. adolygu manteision dull gweithredu sy'n benodol i Gymru sy'n ymgorffori'r hyn a ddysgwyd gan gymunedau ac arbenigwyr gwytnwch, er mwyn cryfhau systemau a strwythurau gwytnwch Cymru;

[6] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru, Adroddiad ar y bylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig COVID-19 y dylid eu harchwilio ymhellach: Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU, Mawrth 2025

i. ystyried y ffordd fwyaf effeithiol i Gymru fynd ati i weithredu argymhellion adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU, gan gynnwys:

  ii. a oes adnoddau digonol i weithredu argymhellion megis ymarferion ymateb i argyfwng a phandemig;

  iii. sut y caiff y broses o weithredu'r argymhellion ei monitro'n effeithiol yng Nghymru.

## Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

**7.** Diddymwyd Pwyllgor Diben Arbennig Cymru yn ffurfiol ar 8 Hydref 2025.[7] Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Busnes[8], cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (y Pwyllgor) i ymgymryd â gwaith a gyfeiriwyd yn flaenorol at Bwyllgor Diben Arbennig Cymru.[9]

**8.** Cytunodd y Pwyllgor i fwrw ymlaen ar y sail y byddai'r gwaith hwn yn gyfyngedig i'r materion sy'n codi o adroddiad Modiwl 1 o Ymchwiliad COVID y DU, o ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar ôl yn nhymor y Senedd hon.

**9.** Defnyddiwyd y bylchau a nodwyd gan Bwyllgor Diben Arbennig Cymru (a amlinellwyd ym mharagraff 6 uchod) fel sail ar gyfer cwmpas y gwaith hwn.

**10.** Penododd y Pwyllgor hefyd Dr Simon Williams, ymchwilydd iechyd cyhoeddus a darlithydd yng Nghyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd Prifysgol Abertawe yn Gynghorydd Arbenigol iddo.[10]

## Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU ac ymateb Llywodraeth Cymru

**11.** Mae argymhellion Ymchwiliad COVID-19 y DU yn cynnwys creu strwythur llywodraethu symlach o ran cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil; gwella asesu risg a rhannu data; cynnal ymarferion pandemig rheolaidd a chyhoeddi gwersi a ddysgwyd; a defnyddio 'timau coch' i sicrhau craffu a herio allanol gan arbenigwyr ar gynllunio ar gyfer argyfyngau sifil yn y dyfodol.

[7] Cyfarfod Llawn y Senedd, Cofnod y Trafodion - NDM8997 - Dadl y Senedd, 8 Hydref 2025
[8] Llythyr gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Mehefin 2025
[9] Llythyr gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2025
[10] Dr Simon Williams - LinkedIn

**12.** Galwodd yr adroddiad hefyd am i Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gael rolau statudol wedi'u diffinio'n glir, gan sicrhau bod pob ymatebydd Categori 1—gan gynnwys gwasanaethau ambiwlans a thân—wedi'u hintegreiddio'n llawn i lywodraethu a gwneud penderfyniadau. Roedd hefyd yn annog i strwythurau gael eu symleiddio drwy leihau pwyllgorau sy'n gorgyffwrdd a chreu llwybrau uwchgyfeirio symlach a chyflymach o lefel leol i lefel genedlaethol, fel bod atebolrwydd a gwneud penderfyniadau yn glir ac yn effeithlon.

**13.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r adroddiad Modiwl 1 ym mis Ionawr 2025.[11] Tynnodd yr ymateb sylw at ddiwygiadau presennol, megis Fframwaith Gwydnwch Cymru a llywodraethu cryfach drwy Fforwm Gwydnwch Cymru a'r Pwyllgor Risg a Pharodrwydd. Cytunodd Llywodraeth Cymru mewn egwyddor â'r rhan fwyaf o'r argymhellion, gan addo gwella cofrestrau risg, casglu data ac ymarferion lleol, wrth weithio gyda Llywodraeth y DU ar fentrau ledled y DU megis sefydlu corff i ddarparu cyngor strategol annibynnol.

**14.** Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau ddiweddariad chwe mis. Y cyntaf ar 14 Gorffennaf 2025[12] a'r ail ar 14 Ionawr 2026.[13] Mae'r rhain yn amlinellu'r camau a gymerwyd megis adolygiadau blynyddol y Cabinet o risgiau, cydgysylltu amlasiantaeth gwell a strwythurau atebolrwydd cliriach, er bod angen gwaith pellach i weithredu'r holl argymhellion yn llawn.

## Fframwaith Gwydnwch Cymru

**15.** Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025. Mae'r Fframwaith yn dweud:

> *"Pwrpas y ddogfen hon yw nodi'r weledigaeth, yr egwyddorion craidd, y dull strategol, y blaenoriaethau a'r canlyniadau ar gyfer gwella gwydnwch Cymru. Mae'n nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli risg yn effeithiol a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau, meithrin gallu, ymateb ac adferiad ar ôl argyfyngau a her aflonyddgar. Mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â gofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac fe'i cynhyrchwyd mewn ymgynghoriad ag ymatebwyr brys yng Nghymru.*

[11] Llywodraeth Cymru, Ymchwiliad COVID-19 y DU - Modiwl 1 (gwytnwch a pharodrwydd): ymateb Llywodraeth Cymru:, Ionawr 2025
[12] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad chwe mis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU, Gorffennaf 2025
[13] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ail ddiweddariad chwe mis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU, Ionawr 2026

> *Mae'n defnyddio arferion da a gwersi a ddysgwyd o argyfyngau diweddar a chanfyddiadau ymchwiliadau cyhoeddus."*[14]

**16.** Cyhoeddwyd cynllun cyflawni ochr yn ochr â'r Fframwaith, sy'n nodi camau gweithredu penodol y bydd Llywodraeth Cymru a'r gymuned ymatebwyr brys yn eu cymryd i gyflawni ei nodau a'i ganlyniadau.[15] Dyfynnir adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU fel tystiolaeth allweddol a lywiodd y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith a'r camau gweithredu yn ei gynllun cyflawni.[16]

**17.** Mae crynodeb o'r cefndir deddfwriaethol perthnasol a'r wybodaeth am drefniadaeth cyrff gwydnwch ac argyfyngau sifil posibl yng Nghymru wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

## Modiwlau yn y dyfodol ar gyfer Ymchwiliad COVID-19 y DU

**18.** Mae Ymchwiliad COVID-19 y DU wedi'i rannu'n ddeg modiwl er mwyn caniatáu archwiliad llawn â ffocws o'r holl agweddau gwahanol ar y pandemig sydd wedi'u cynnwys yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.[17]

**19.** Ers dechrau gweithio ar Fodiwl 1, mae ymchwiliad COVID-19 y DU wedi cyhoeddi ei adroddiad ar Fodiwl 2 ym mis Tachwedd 2025. Canolbwyntiodd y Modiwl hwn ar wneud penderfyniadau craidd a llywodraethu gwleidyddol, gyda Modiwl 2B yn edrych yn benodol ar y materion hyn fel y maent yn berthnasol i Gymru.[18]

**20.** Mae pum adroddiad arall wedi'u cynllunio i'w cyhoeddi yn 2026 yn cwmpasu Modiwlau Tri i Saith. Bydd yr adroddiadau hyn yn ystyried pynciau fel Systemau Gofal Iechyd, Brechlynnau a Therapiwteg, Caffael, y Sector Gofal ac Olrhain Cysylltiadau. Bydd y tri adroddiad sy'n weddill sy'n ymdrin â Modiwlau Wyth i Ddeg ar Blant a Phobl Ifanc, Ymateb Economaidd ac Effaith ar Gymdeithas yn cael eu cyhoeddi yn hanner cyntaf 2027.[19]

## Barn y Pwyllgor

**21.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith sylweddol a wnaed gan Bwyllgor Diben Arbennig Cymru ac yn estyn ein diolch i'w aelodau a phawb a gyfrannodd at

[14] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025, Mai 2025, paragraff 1.26
[15] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Gwydnwch Cymru: Cynllun Cyflawni 2025
[16] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025, Mai 2025, paragraff 1.26
[17] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Cylch gorchwyl, Mehefin 2022
[18] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 2, 2A, 2B, 2C – Gwneud penderfyniadau craidd a llywodraethu gwleidyddol, Tachwedd 2025
[19] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Yr ymchwiliad yn amlinellu trefn 2026, Ionawr 2026

gasglu'r dystiolaeth. Hoffai'r Pwyllgor hefyd ddiolch i'r holl unigolion a sefydliadau a gymerodd yr amser i ddarparu tystiolaeth i lywio'r gwaith hwn. Roedd y mewnwelediadau a'r profiadau a rannwyd yn amhrisiadwy o ran nodi'r bylchau yr oedd angen eu harchwilio ymhellach. Mae'r dystiolaeth hon wedi darparu sylfaen hanfodol ar gyfer gwaith ein Pwyllgor ein hunain ar y mater hwn.

**22.** Wrth ystyried y cais gan y Pwyllgor Busnes i barhau â'r gwaith a wnaed yn flaenorol gan Bwyllgor Diben Arbennig Cymru, cytunwyd ei bod yn hanfodol gwneud hynny, gan gydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn a'r angen i sicrhau bod y materion a nodwyd yn destun archwiliad manwl gan y Senedd. Teimla'r Pwyllgor ei bod yn hollbwysig bod y Senedd yn cael y cyfle i graffu ar i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Modiwl 1, pa mor ddigonol yw'r newidiadau a wnaed i'r dull cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil posibl, a'i pharodrwydd ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol.

**23.** Mae'r Pwyllgor hefyd eisiau cydnabod galwadau gan y grŵp ymgyrch COVID-19 Bereaved Families for Justice Cymru (CBFJC) ac eraill am sefydlu Ymchwiliad COVID-19 statudol penodedig i Gymru. Hoffem bwysleisio o'r cychwyn nad ydym yn disodli ymchwiliad COVID penodol i Gymru, ac ni all ein gwaith gyfateb i ddyfnder a graddfa ymchwiliad cyhoeddus statudol llawn mewn unrhyw ffordd. Llywodraeth Cymru, nid y Senedd, sy'n gyfrifol am y penderfyniad ynghylch a ddylid comisiynu ymchwiliad cyhoeddus statudol i Gymru ai peidio. Fel Pwyllgor, fe wnaethom ymdrechu i ddefnyddio'r amser cyfyngedig a oedd ar gael i dynnu sylw at feysydd i'w gwella a gosod y sylfaen ar gyfer gwaith craffu pellach yn y Senedd nesaf.

**24.** Bydd ystyried a chraffu ar y modiwlau sy'n weddill o Ymchwiliad COVID-19 y DU yn fater i'r Senedd nesaf. O ystyried arwyddocâd y gwaith hwn, a phwysigrwydd sicrhau bod y gwersi o'r pandemig wedi'u hymgorffori'n llawn, cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol bod y rhaglen graffu hon yn parhau.

**25.** Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor yn cydnabod na fydd gan Lywodraeth Cymru amser i ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad hwn, o ystyried ein bod yn agosáu at ddiwedd tymor y Senedd. Felly, gofynnwn i Lywodraeth nesaf Cymru gyhoeddi ymateb ffurfiol i'r adroddiad hwn cyn gynted â phosibl ar ôl etholiadau Senedd 2026 ym mis Mai.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd nesaf yn blaenoriaethu archwilio pob un o fodiwlau'r ymchwiliad sy'n weddill er mwyn sicrhau eu bod yn destun gwaith craffu trylwyr, tryloyw ac amserol.

# 2. Llywodraethu, atebolrwydd a chydgysylltu strwythurau gwydnwch

**26.** Roedd Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU yn ystyried a gynlluniwyd yn briodol ar gyfer y pandemig, ac a oedd pedair gwlad y DU yn barod ar gyfer digwyddiad o'r fath. Archwiliodd i ba raddau yr oedd y sefydliadau sy'n gyfrifol am baratoi ar gyfer argyfyngau ac argyfyngau sifil posibl yn addas at y diben ac a oedd strwythurau a gweithdrefnau priodol ar waith i hwyluso ymateb effeithiol a chydgysylltiedig.[20]

**27.** Er gwaethaf sicrwydd gan Lywodraeth Cymru fod y system gwydnwch ac argyfyngau sifil posibl yng Nghymru yn gwneud synnwyr i'r rhai ynddi, disgrifiodd ymchwiliad COVID-19 y DU hi fel un "gymhleth iawn".[21] System rhy gymhleth sy'n cynnwys gormod o endidau â rolau a chyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd ac atebolrwyddau aneglur. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod systemau parodrwydd ac ymateb i argyfyngau Cymru yn dameidiog, yn anghyson, ac yn cael eu rhwystro gan gymhlethdod diangen.[22]

**28.** Gwnaed sylwadau tebyg gan Archwilio Cymru yn 2012.[23] Ac eto, cyn y pandemig, "nid oedd llawer wedi'i wneud yn y cyfamser gan Lywodraeth Cymru i symleiddio a rhesymoli'r endidau y bu'n gyfrifol amdanynt. arwain a gweinyddu parodrwydd ar gyfer argyfwng yng Nghymru."[24].

**29.** Argymhellodd Ymchwiliad COVID-19 y DU y dylid symleiddio'r strwythur ar gyfer gwydnwch a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau sifil posibl system gyfan. Dylai gael ei arwain gan un pwyllgor gweinidogol, wedi'i gadeirio gan yr arweinydd neu'r dirprwy arweinydd a'i gefnogi gan grŵp trawslywodraethol o uwch-swyddogion. Dylid lleihau nifer y cyrff isradd sy'n gyfrifol am gefnogi'r strwythur hwn a dylai'r rhai a gedwir fod â diben clir a bod yn destun gofynion adrodd rheolaidd. Dylai strwythurau diwygiedig fod yn destun gwaith craffu annibynnol

[20] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Cryno Modiwl 1, Gorffennaf 2024
[21] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraff 2.61
[22] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraffau 2.56-2.70
[23] Archwilio Cymru, Argyfyngau Sifil yng Nghymru, Rhagfyr 2012
[24] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraff 2.70

cadarn a phrofion straen i sicrhau eu bod yn barod ac yn gallu ymateb yn effeithiol i argyfyngau yn y dyfodol.[25]

**30.** Daeth Pwyllgor Diben Arbennig Cymru i'r casgliad, er bod argymhellion ymchwiliad COVID y DU yn gynhwysfawr ac yn briodol, eu bod yn brin o benodolrwydd mewn perthynas â Chymru. Roedd yn argymell adolygiad dyfnach o effeithiolrwydd strwythurau gwydnwch Cymru, gan gynnwys cyfeiriad a chydgysylltiad y pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, grwpiau a sefydliadau penodol i Gymru (e.e. Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru a Grŵp Adfer Cymru) a chynlluniau strategol (e.e. Fframwaith Gwydnwch Cymru, Cynllun Ymateb Cymru Gyfan).[26]

## Cymhlethdod parhaus o fewn strwythurau gwydnwch Cymru

**31.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd cynrychiolwyr o'r gwasanaethau brys ac ymatebwyr Categori 1 eraill ymdrechion ar ran Llywodraeth Cymru i symleiddio strwythurau gwydnwch, drwy ddatblygu Fframwaith Gwydnwch Cymru, a chyda arweinyddiaeth a ddarparwyd gan Fforwm Gwydnwch Cymru.

**32.** Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r farn bod y trefniadau newydd o dan Fframwaith Gwydnwch Cymru yn rhoi mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau o fewn y strwythur gorchymyn a rheoli, yn cryfhau'r cysylltiadau a'r rhyngwyneb rhwng y gwahanol sefydliadau sy'n gyfrifol am ymateb i argyfyngau ac yn helpu i osgoi dyblygu ymdrechion i wneud y gorau o gydgysylltu.[27]

**33.** Er gwaethaf y gwelliannau hyn, clywsom fod strwythurau parodrwydd ac argyfyngau sifil posibl yng Nghymru yn parhau i fod yn gymhleth ac yn heriol i'w symleiddio. Dywedodd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WASUT) wrth y Pwyllgor:

> *"Of course, module 1 inquiry focuses really on simplicity and the advantages of simplicity, and I think from the heart of Government I can see how Government has responded to that. For me, however, there's an ongoing reality here, that when you come out from the*

[25] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, tudalennau 4-5
[26] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru, Adroddiad ar y bylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig COVID-19 y dylid eu harchwilio ymhellach: Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU, Mawrth 2025, paragraffau 16, 52
[27] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 12 Tachwedd 2025, paragraffau 91-92

> *heart of Government into Government departments, and from Government departments into Category 1 and Category 2 responders, and the structures that we would have around us that support civil contingency efforts, it remains vast. And therefore there is that need for the balance of simplicity, where that's going to add advantage, but recognising that there are local responses, there are supporting structures, there are multiple Government departments and multiple agencies. There are therefore always going to be, for me, degrees of complexity."*[28]

**34.** Er mwyn mynd i'r afael â'r mater o gymhlethdod, ac i roi eglurder i'r nifer o sefydliadau sy'n ymwneud â pharodrwydd ac ymateb i argyfyngau, awgrymodd WASUT y byddai gwerth mewn mapio'n fanwl y strwythurau argyfyngau sifil posibl sydd newydd eu diwygio er mwyn helpu i egluro atebolrwydd ar draws y system.

**35.** Awgrymodd y byddai ymarfer mapio o'r fath (y cyfeirir ato yn adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU fel 'diagramau sbageti') yn:

> *"... set out with absolute clarity on who is responsible for what and when, where the decision makers are and where the advisers are... what would be key are two factors in that. The first is co-ordination, effective co-ordination amongst all of the playing groups, and secondly, communication, and how information is flowing sideways, from the bottom up and from the top down."*[29]

**36.** Cefnogwyd yr awgrym hwn gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a eglurodd:

> *"I agree we're always going to have complexities...I think the key thing... is that line of communication, vertical and horizontal. But I'd add to that it's about making sure that, when we do look at the spaghetti diagram and we do look at what groups are meeting and supporting that information flow, we're very clear and there's a clarity on*

[28] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 28
[29] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraffau 29-30

> *accountability and responsibility, because I think if we focus on those two areas, then we can deal with the complexity within."*[30]

## Heriau i ymatebwyr cenedlaethol

**37.** Clywodd y Pwyllgor fod ymatebwyr cenedlaethol yn ei chael hi'n heriol gwasanaethu pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ar wahân a'u his-strwythurau cysylltiedig — a all gynnwys rhwng 50 a 60 o is-grwpiau fesul Fforwm. Mae'r heriau hyn yn arbennig o ddifrifol yn ystod argyfyngau ar lefel genedlaethol lle mae nifer o Fforymau'n cael eu gweithredu ar yr un pryd. Mae hyn yn berthnasol wrth gynllunio ac wrth ymateb.

**38.** Disgrifiodd WASUT y straen ar sefydliadau sydd â chylch gwaith cenedlaethol i reoli eu hadnoddau a gwasanaethu nifer o strwythurau gwydnwch lleol yn effeithiol fel rhywbeth 'anhygoel o anodd'.[31] Dyfynnodd enghreifftiau o ymatebion blaenorol lle roedd gwrthdaro o ran cydgysylltu yn golygu bod disgwyl i un comander strategol fynychu nifer o Grwpiau Cydgysylltu Strategol ar yr un pryd.[32]

**39.** Dywedodd WASUT wrth y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol archwilio ffyrdd o gydgysylltu Fforymau Lleol Cymru Gydnerth fel y gall ymatebwyr cenedlaethol ymgysylltu â'r pedwar ar yr un pryd. Awgrymodd y byddai strwythur gwydnwch lleol mwy syml yn lleihau'r risg o anghysondeb mewn dull ar draws pedair ardal Fforymau Lleol Cymru Gydnerth.[33] Galwodd hefyd am fwy o ystyriaeth o ymatebwyr cenedlaethol wrth amserlennu Grwpiau Cydgysylltu Strategol a Grwpiau Cydgysylltu Tactegol.[34]

**40.** Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn rhannu'r farn hon, a nododd fod angen rhoi mwy o sylw i amseru 'rhythm brwydr' wrth amserlennu Grwpiau Cydgysylltu Strategol a Grwpiau Cydgysylltu Tactegol. Roedd

---

[30] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 35
[31] Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (Saesneg yn unig), Rhagfyr 2025, paragraff 4.1.7
[32] Mae Grwpiau Cydgysylltu Strategol yn gyfrifol am reolaeth amlasiantaeth digwyddiad yn strategol ar lefel leol, ac am sefydlu fframwaith strategol lle bydd lefelau is o grwpiau gorchymyn a chydgysylltu yn gweithio. Gall Grŵp Cydgysylltu Strategol gael ei weithredu gan unrhyw sefydliad ymatebydd sydd wedi'i gynrychioli ar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.
[33] Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (Saesneg yn unig), Rhagfyr 2025, paragraff 3.4.1
[34] Mae Grwpiau Cydgysylltu Strategol yn grwpiau amlasiantaeth o gomandwyr tactegol sy'n cyfarfod i benderfynu, cydgysylltu a chyflawni'r ymateb tactegol i argyfwng.

yn pwysleisio bod y mater hwn yn effeithio ar nifer o ymatebwyr Categori 1 a 2 eraill sy'n cwmpasu ardaloedd eang (er enghraifft, Cyfoeth Naturiol Cymru)[35].

## Monitro a chraffu annibynnol ar gynnydd

**41.** Clywodd y Pwyllgor bryderon gan CBFJC, a oedd yn gyfranogwyr craidd ym Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU[36], er bod Llywodraeth Cymru yn honni ei bod wedi symleiddio a chryfhau strwythurau argyfyngau sifil posibl, nid oes tystiolaeth glir i ddangos effeithiolrwydd y strwythurau newydd hyn.

> *"The inquiry has asked the Welsh Government to report back six monthly…the problem is that you have the Welsh Government self-reporting on their progress. We can see or we are being told that the labyrinthine structures within emergency health planning have been simplified; we have to take their word for that. We're also told that there are different groups. But again, what we're not seeing is any evidence of how what they're saying is being monitored, how it's being stress tested. Have any of these things been worked—? Who's monitoring that any of these changes are actually in place, and not just that they're in place, but that they're effective?"*[37]

**42.** Roedd y rhain yn rhan o bryderon ehangach a godwyd gan CBFJC ynglŷn ag atebolrwydd Llywodraeth Cymru. Roedd yn cwestiynu dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar hunan-adrodd cynnydd ar argymhellion Ymchwiliad Modiwl 1 COVID-19 y DU ac yn mynegi pryderon ynghylch absenoldeb ehangach gwaith craffu annibynnol ar wydnwch a pharodrwydd Cymru.

**43.** Roedd CBFJC yn galw am waith craffu annibynnol ar y gweithrediad, a allai gynnwys sefydlu 'Comisiynydd Gwydnwch Cymru' neu banel cynghori; gofyniad cyfreithiol i gyflwyno adroddiad parodrwydd pandemig blynyddol gerbron y Senedd; neu gyflwyno dangosfyrddau cyhoeddus i olrhain cynnydd.

> *"It needs independent oversight, as well as the Senedd. Establishing a Welsh resilience commissioner or advisory panel that looks at civil contingency, social care, preparedness, the implementation of the*

[35] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 50
[36] Ymchwiliad Covid-19 y DU, Rhestr o Gyfanogwyr Craidd Modiwl 1, 12 Mehefin 2023
[37] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 184

> *recommendations across all the public bodies. We think there should be a legal mandate to have an annual pandemic preparation report, and that should be laid before the Senedd. Why aren't there public dashboards monitoring all of these recommendations? Because we're only looking at Module 1 today; we have another [9] to go. So, I think the structures need to be in place now to ensure that this is for the long term."*[38]

**44.** Roedd CBFJC yn dadlau ymhellach y dylai argymhellion fod yn fesuradwy ac yn benodol. Nododd fod rhai argymhellion o adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU yn rhy generig, ac nad oeddent yn ystyried cyd-destun Cymru yn ddigonol, gan ei gwneud hi'n anodd olrhain cynnydd. Er enghraifft, roedd yn cwestiynu beth mae 'data gwell' yn ei olygu yn ymarferol ac yn awgrymu y dylai diffiniadau gynnwys canlyniadau mesuradwy.[39]

**45.** Dewisodd Llywodraeth y DU beidio â derbyn argymhelliad 10 o adroddiad Modiwl 1 – a oedd yn galw am sefydlu "corff statudol annibynnol ar gyfer y DU gyfan ar gyfer parodrwydd a gwydnwch system gyfan ar gyfer argyfyngau sifil", gan ddewis yn lle hynny dibynnu ar gyngor annibynnol ar eu parodrwydd gan sefydliadau presennol fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin a phaneli arbenigwyr Asesu Risg Diogelwch Cenedlaethol.[40] Mae hefyd wedi cyfarwyddo Academi Gwydnwch y DU i gynnull paneli arbenigol, dan gadeiryddiaeth ffigur o'r tu allan i'r llywodraeth, a fydd yn craffu ar gynlluniau a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau sifil posibl system gyfan ledled y DU.[41]

**46.** Cafodd penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â derbyn argymhelliad 10 o adroddiad Modiwl 1 ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, a gytunodd nad yw'n credu mai "corff statudol annibynnol yw'r ymateb mwyaf priodol ac effeithiol gan y byddai'n dargyfeirio adnoddau hanfodol oddi wrth ein galluoedd i baratoi ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt". Yn hytrach, bydd mecanweithiau ar lefel y DU yn craffu ar strwythurau gwydnwch yng Nghymru.[42]

---

[38] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 191
[39] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 182
[40] Yr Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol yw mynegiant unigol, awdurdodol Llywodraeth y DU o'r risgiau acíwt mwyaf difrifol sy'n wynebu'r DU a'i buddiannau dramor.
[41] Llywodraeth y DU, Ymateb i Ymchwiliad COVID-19 y DU - Diweddariad - Gweithredu Modiwl 1 (Saesneg yn unig), Gorffennaf 2025, paragraffau 25-26
[42] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad chwe mis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU, Gorffennaf 2025

**47.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ein cynghorydd arbenigol annibynnol am fodelau amgen ar gyfer darparu gwaith craffu annibynnol ar drefniadau gwydnwch a pharodrwydd a ddefnyddir mewn awdurdodaethau eraill. Er enghraifft, mae gwledydd fel Awstralia, Canada a'r Unol Daleithiau (UDA) yn cyhoeddi archwiliadau annibynnol o barodrwydd a rheoli argyfyngau.[43] Mae hefyd yn werth nodi nad yw archwiliadau allanol o'r fath wedi'u cyfyngu i'r lefel genedlaethol mewn awdurdodaethau eraill. Mae Talaith Victoria yn Awstralia yn esiampl yn hyn o beth, gyda'i Harolygydd Cyffredinol ar gyfer Rheoli Argyfyngau wedi cynnal wyth adolygiad cynnydd i fonitro, adolygu ac asesu gwaith cynllunio ar gyfer rheoli argyfyngau ar lefel system ers y Ddeddf Rheoli Argyfyngau yn 2013.[44]

**48.** Mae cynsail hefyd ar gyfer archwiliadau allanol o'r math hwn yma yng Nghymru. Cynhaliodd Archwilio Cymru archwiliad o Argyfyngau Sifil yng Nghymru yn 2012, gyda'r amcan o archwilio "p'un a yw Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 wedi arwain at drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio at argyfwng a chydnerthedd mewn cymunedau sy'n diogelu'r cyhoedd yng Nghymru yn ddigonol."[45].

**49.** Mae'r cyngor a gafodd y Pwyllgor gan ein cynghorydd arbenigol annibynnol yn amlinellu, er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau ymateb i argyfyngau, bod arfer gorau rhyngwladol yn galw am ddiffinio dangosyddion perfformiad clir y gellir eu mesur dros amser ac ar draws gwahanol gyd-destunau, er enghraifft yn ystod gwahanol fathau o argyfyngau.

**50.** Clywsom enghreifftiau o wledydd eraill sydd eisoes yn defnyddio'r mathau hyn o ddangosyddion. Er enghraifft, mae Rhaglen Parodrwydd ac Ymateb i Argyfyngau Canada yn cynnwys dangosyddion perfformiad meintiol sy'n destun gwerthusiad blynyddol.[46] Mae'r gwerthusiad hwn yn defnyddio canlyniadau rhifiadol i olrhain cynnydd a gwelliant dros amser. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau parodrwydd a gallu i ymateb fel:

- Canran yr amcanion ymarfer brys a gyflawnwyd (effeithiolrwydd ymarfer).

[43] Swyddfa Archwilio Genedlaethol Awstralia, Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Rhif 5 2024–25: Archwiliad Perfformiad, Fframwaith Rheoli Argyfwng Llywodraeth Awstralia (Saesneg yn unig), Hydref 2024
[44] Arolygydd Cyffredinol Victoria ar gyfer Rheoli Argyfyngau Cynllun Gweithredu Strategol Rheoli Argyfyngau Victoria 2023–26 – Adroddiad Cynnydd 2024 (Saesneg yn unig), Ionawr 2026
[45] Archwilio Cymru, Argyfyngau Sifil yng Nghymru, Rhagfyr 2012
[46] Llywodraeth Canada, Gwerthusiad o'r Rhaglen Parodrwydd ac Ymateb i Argyfyngau (2019–2020 i 2023–2024) (Saesneg yn unig). Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus Canada, Mehefin 2025

- Canran yr asesiadau risg a gallu a gwblhawyd ar gyfer risgiau â blaenoriaeth.
- Canran yr argymhellion perthnasol a weithredwyd, yn gysylltiedig ag actifadu, a nodwyd drwy drafodaeth ar ôl digwyddiad.
- Canran y ceisiadau lleol am gymorth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Canran y cynlluniau a'r canllawiau a ddiweddarwyd o fewn amserlenni'r adolygiad.
- Sgôr parodrwydd Canada, fel y'i haseswyd yn erbyn Fframwaith Monitro a Gwerthuso Rheoliad Iechyd Rhyngwladol (IHR) Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) / Offeryn Adrodd Blynyddol Hunanasesu Partïon Gwladwriaethau (SPAR).[47]

**51.** Yn yr Unol Daleithiau, mae Adroddiadau Parodrwydd Cenedlaethol sy'n darparu asesiad o'r parodrwydd cenedlaethol ar gyfer bygythiadau a pheryglon. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn yn flynyddol gan Asiantaeth Rheoli Argyfyngau Ffederal yr Unol Daleithiau (FEMA).

**52.** Mae'r asesiad yn edrych ar 'dargedau gallu craidd' ac yn mesur i ba raddau y cânt eu cyflawni. Mae targedau gallu craidd wedi'u grwpio yn ôl pum maes parodrwydd (neu 'genadaethau'): Atal, Amddiffyn, Lliniaru, Ymateb ac Adfer. Caiff parodrwydd ei asesu gan ddefnyddio'r Asesiad Risg a Nodi Bygythiadau a Pheryglon (THIRA) a'r Adolygiad Parodrwydd Rhanddeiliaid (SPR), sy'n gosod nodau parodrwydd, targedau a'r meini prawf ar gyfer eu hasesu. Er enghraifft, mae'n cynnwys y dangosyddion perfformiad a'r ffynonellau data a ganlyn:

- Data Arolwg Cartrefi Cenedlaethol i asesu ymwybyddiaeth a chamau parodrwydd y cyhoedd, e.e., canran yr aelwydydd sydd â chynlluniau argyfwng, pecynnau trychineb, neu fesurau parodrwydd ariannol.
- Wrth olrhain cyllid grant, mae'r adroddiad yn asesu a gyrhaeddwyd grantiau targed ar draws meysydd gallu craidd (e.e. faint a fuddsoddwyd

[47] Mae Gwladwriaethau sy'n Bartïon yn adrodd i'r WHO ar weithredu'r IHR. Mae Gwladwriaethau sy'n Bartïon yn defnyddio offeryn hunanasesu ar gyfer eu hadroddiadau blynyddol o'r enw IHR SPAR. Mae offeryn SPAR yn cynnwys 35 o ddangosyddion ar gyfer y 15 capasiti IHR sydd eu hangen i ganfod, asesu, hysbysu, adrodd ac ymateb i risgiau iechyd y cyhoedd a digwyddiadau acíwt o bryder domestig a rhyngwladol yng Nghymru.

ym mhob maes parodrwydd ar lefel y gymuned a pha ganran o'r buddsoddiad targed a gyrhaeddwyd).

- Gan ddefnyddio cyflwyniadau cymunedol i THIRA/SPR, i fesur bylchau ac anghenion ym mharodrwydd ymatebwyr cymunedol ar gyfer argyfyngau, gan gynnwys bylchau hyfforddiant, bylchau yn y gadwyn gyflenwi a thechnoleg feddygol, ac ati.[48]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**53.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod wedi "atgyfnerthu'r modd y mae ei gwasanaethau brys ac asiantaethau'r llywodraeth yn cydgysylltu'r gwaith o baratoi ar gyfer digwyddiadau mawr ac ymateb iddynt yn sylweddol."[49]. Mae'n tynnu sylw at drefniadau llywodraethu gwell, fel y nodir yn Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025, sy'n cynnwys sefydlu'r Pwyllgor Risg a Pharodrwydd ac ailgyfansoddi Fforwm Gwydnwch Cymru, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, ac a gefnogir gan Bartneriaeth Gwydnwch Cymru gryfach.[50]

**54.** Mae'r trefniadau llywodraethu gwydnwch diwygiedig hyn wedi'u cynllunio i "newid o reoli risg i ymateb i argyfwng pan fo angen, drwy weithdrefnau actifadu ymateb cryfach a mwy ystwyth, sydd wedi cael eu straen-brofi a'u mireinio drwy fwy na 50 o ymatebion i ddigwyddiadau go iawn yn 2024 a 2025 ac ymarferion."[51].

**55.** Cydnabu'r Prif Weinidog, er bod strwythurau argyfyngau sifil posibl yn gymhleth yn eu hanfod, fod y diwygiadau hyn yn mynd i'r afael â phryderon a fynegwyd gan Ymchwiliad COVID-19 y DU a Phwyllgor Diben Arbennig Cymru ynghylch cymhlethdod a darnio strwythurau blaenorol. Pwysleisiodd egwyddor y dull "Unwaith i Gymru" fel y sylfaen ar gyfer lleihau dyblygu, a nododd fod y strwythurau diwygiedig wedi bod yn destun nifer o rowndiau o brofion straen a mireinio drwy ymarferion ac ymatebion i ddigwyddiadau yn y byd go iawn.

**56.** Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor fod y strwythurau diwygiedig hyn wedi "arwain at fanteision diriaethol" ac "mae hyn

[48] Asiantaeth Rheoli Argyfyngau Ffederal Unol Daleithiau America, Adroddiad Parodrwydd Cenedlaethol (Saesneg yn unig), Rhagfyr 2024
[49] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Ionawr 2026, paragraff 3
[50] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Ionawr 2026, paragraffau 4-5
[51] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Ionawr 2026, paragraff 4

wedi arwain at ymatebion gwell i argyfyngau a heriau gwirioneddol na'r hyn a welwyd o'r blaen". Mae'r honiadau hyn yn seiliedig ar "adborth gan ymatebwyr."[52].

**57.** Pan ofynnwyd iddi a oedd digon o dystiolaeth ar gael yn gyhoeddus i gadarnhau'r honiadau hyn, ailadroddodd y Prif Weinidog ei barn mai'r prawf eithaf o ba un a yw'r strwythurau diwygiedig yn gweithio yw effeithiolrwydd yr ymateb i ddigwyddiadau yn y byd go iawn.

> *"The assessment of our crisis management structures is demonstrated by, more than anything, how we respond now to incidents and what support we give to those multi-agency responses. It can be proved in real time. The fact that we have seen that in action 31 times this year—you'll be aware of some of it, but the fact that—. That's quite a high number, and the fact that you probably haven't clocked that many, I hope demonstrates that actually the system is working reasonably well."*[53]

**58.** Wrth ymateb i gwestiynau am y dangosyddion perfformiad y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i asesu effeithiolrwydd strwythurau argyfyngau sifil posibl Cymru, pwysleisiodd y Prif Weinidog y gwelir hyn drwy ymatebion amser real i ddigwyddiadau, gan nodi bod trefniadau rheoli argyfwng wedi cael eu gweithredu 31 gwaith yn 2025. Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn wedi pasio heb ymwybyddiaeth gyhoeddus sylweddol yn dystiolaeth bod y system yn hyblyg ac yn effeithiol.

**59.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw hefyd at ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Fframwaith Gwydnwch Cymru sy'n anelu at feithrin hyder y cyhoedd yn y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gadw dinasyddion yn ddiogel.[54] Mae hyn yn cynnwys datganiad blynyddol i'r Senedd, y darparwyd y cyntaf ohonynt ym mis Mai 2025.[55]

**60.** Wrth ymateb i feirniadaeth nad yw trefniadau argyfyngau sifil posibl diwygiedig Cymru wedi bod yn destun gwaith craffu annibynnol digonol, tynnodd y Prif Weinidog sylw at y ffaith bod Llywodraeth y DU a'r llywodraethau

[52] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Ionawr 2026, paragraff 3.
[53] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 81
[54] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 86
[55] Cyfarfod Llawn y Senedd, Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2025, paragraffau 257-268

datganoledig ill dau wedi gwrthod yr argymhelliad ar gyfer corff craffu annibynnol statudol. Eglurodd y Prif Weinidog fod y penderfyniad hwn wedi'i wneud ar y sail y byddai'n dargyfeirio adnoddau oddi wrth eu capasiti i baratoi ar gyfer digwyddiadau yn y byd go iawn ac ymateb iddynt, ond pwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am oruchwyliaeth allanol ac wir yn gwerthfawrogi gwaith craffu allanol. Tynnodd y Prif Weinidog sylw at Gofrestr Risg Cymru, sydd wedi bod yn destun adolygiad gan Academi Gwydnwch y DU. Nododd y Prif Weinidog hefyd fesurau atebolrwydd presennol, gan gynnwys y datganiad blynyddol ar argyfyngau sifil posibl, cyfarfodydd Cabinet blynyddol ac ymrwymiad i gyhoeddi adroddiad cynhwysfawr ar 'Gyflwr Gwydnwch' bob pedair blynedd.[56]

**61.** Wrth fyfyrio ar yr heriau a wynebir gan ymatebwyr cenedlaethol wrth gymryd rhan mewn sawl strwythur gwydnwch lleol, nododd y Prif Weinidog fod gan ymatebwyr Categori 1 ddyletswydd statudol i gydweithredu o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, ac yn gyffredinol maent yn gwneud hynny'n effeithiol, er y gall cyflawni hyn ar lefel leol fod yn fwy heriol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dweud ei bod wedi "atgyfnerthu trefniadau cydweithio amlasiantaethol drwy Bartneriaeth Gwydnwch Cymru ac wedi gwella cymorth ar gyfer fforymau gwydnwch lleol", gan gynnwys cyllid pwrpasol o 2024-25 o £30,000 fesul Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a £50,000 fesul Fforwm o 2025/6.[57] Mae rhaglen waith newydd hefyd wedi'i darparu i Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gyda'r nod o wneud y gorau o effeithlonrwydd.[58]

**62.** Pwysleisiodd y Prif Weinidog fod cyfarfodydd Grwpiau Cydgysylltu Strategol a Grwpiau Cydgysylltu Tactegol yn parhau i fod yn fater i'r ymatebwyr eu hunain, sydd angen ymreolaeth i weithredu trefniadau yn ôl yr angen. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori y dylid trefnu cyfarfodydd i osgoi gwrthdaro ond mae'n derbyn bod angen eglurder a gwelliannau pellach, yn enwedig ar gyfer argyfyngau ar raddfa fawr ac mae wedi ymrwymo i fireinio'r dull hwn dros amser.[59]

---

[56] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 89-90
[57] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Ionawr 2026, paragraff 18
[58] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 44-5
[59] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 50-1, 54

## Barn y Pwyllgor

**63.** Cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol bod gan bobl Cymru hyder bod gwersi'r pandemig wedi'u dysgu a bod Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid cyflawni wedi'u paratoi'n well i ymateb i'r ystod lawn o argyfyngau posibl a digwyddiadau difrifol y byddwn yn anochel yn eu hwynebu yn y dyfodol.

**64.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod strwythurau argyfyngau sifil posibl a strwythurau ymateb i argyfyngau yn gymhleth yn eu hanfod, gan gynnwys ystod eang o wneuthurwyr penderfyniadau, awdurdodau cyhoeddus cenedlaethol a lleol, gwasanaethau brys, a sefydliadau gwirfoddol. Rydym yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i symleiddio'r strwythurau hyn mewn ymateb i argymhellion Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU.

**65.** Mae ailgyfansoddi Fforwm Gwydnwch Cymru, a chreu Partneriaeth Gwydnwch Cymru yn gam cryf i'r cyfeiriad cywir tuag at egluro a symleiddio prosesau gwydnwch a rhesymoli nifer y rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig.

**66.** Er ei bod yn amlwg bod cryn ddiwygio wedi bod i bensaernïaeth gwydnwch yng Nghymru, fel y'i nodir yn Fframwaith Gwydnwch Cymru, mae'r dystiolaeth gan y rhai sy'n ymwneud â pharatoadau ac ymateb i argyfyngau yn dangos yn glir y gellid gwneud mwy i leihau cymhlethdod y strwythurau hyn a darparu eglurder i'w galluogi i ymateb mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

**67.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion a wnaed gan nifer o ymatebwyr Categori 1 a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad y dylid cynnal ymarfer mapio manwl o strwythurau argyfyngau sifil posibl Cymru, yn debyg i'r hyn a gynhaliwyd gan Ymchwiliad COVID-19 y DU. Dylai'r ddogfen hon nodi, mewn termau syml, sut y bwriedir i'r strwythurau diwygiedig weithio'n ymarferol. Byddai ymarfer o'r fath yn dangos a yw diwygiadau diweddar wedi symleiddio'r system ac yn darparu gwybodaeth glir a hygyrch am linellau atebolrwydd, rolau a chyfrifoldebau, hierarchaethau gwneud penderfyniadau, a llif gwybodaeth sy'n bodoli o dan y trefniadau newydd.

**68.** Cred y Pwyllgor hefyd y gellid gwneud mwy i gefnogi ymatebwyr ar lefel genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am gwmpasu sawl strwythur y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth. Mae'r dystiolaeth a glywsom gan gynrychiolwyr y sefydliadau hyn yn awgrymu bod y gofynion arnynt, er enghraifft gwasanaethu anghenion nifer o Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ac is-grwpiau yn ogystal ag amserlennu cyfarfodydd Grwpiau Cydgysylltu Strategol a Grwpiau Cydgysylltu Tactegol, yn feichus ac wedi'u cydgysylltu'n aneffeithlon. Mae'n hanfodol bod y rhai sy'n

eistedd ar Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Grwpiau Cydgysylltu Strategol a Grwpiau Cydgysylltu Tactegol yn rhannu dealltwriaeth glir o brotocolau ar gyfarfodydd, gan gynnwys amlder, yn enwedig ar adegau o actifadu ar yr un pryd. Mae'r angen am well cydgysylltu ac osgoi dyblygu wedi'i gynnwys yn Fframwaith Gwydnwch Cymru o dan egwyddor Unwaith i Gymru, ond cred y Pwyllgor fod angen mwy o fanylion a chanllawiau penodol i wireddu'r bwriad y tu ôl i'r egwyddor hon yn ymarferol.

**69.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu bod angen canllawiau cliriach er mwyn helpu sefydliadau ymatebwyr i ddeall y meini prawf sy'n penderfynu pryd y dylid rheoli digwyddiadau ar lefel leol a phryd mae angen ymateb cenedlaethol mwy cydgysylltiedig arnynt. Dylai'r canllawiau hyn egluro'r trothwyon lle mae protocolau uwchgyfeirio yn cael eu gweithredu, gan sicrhau bod gan ymatebwyr ddealltwriaeth glir o'r amgylchiadau sy'n gofyn am drefniadau ymateb brys gwell a'r llwybrau ar gyfer gwneud hynny.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer mapio annibynnol o strwythurau argyfyngau sifil posibl Cymru i ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch am rolau a chyfrifoldebau, hierarchaethau gwneud penderfyniadau, llinellau atebolrwydd a llifau cyfathrebu. I gyd-fynd â hyn, dylid cyhoeddi canllawiau syml a chydgysylltiedig sy'n egluro sut y dylai'r strwythurau hyn weithio cyn, yn ystod ac ar ôl sefyllfa argyfwng.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau cenedlaethol ar amserlennu a chydgysylltu cyfarfodydd y Grŵp Cydgysylltu Strategol a'r Grŵp Cydgysylltu Tactegol er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth glir o brotocolau ar gyfarfodydd ac i gefnogi ymatebwyr sy'n gweithredu ar draws nifer o Fforymau Lleol Cymru Gydnerth. Dylai'r canllawiau hyn hefyd ddarparu manylion am y meini prawf sy'n penderfynu pryd y mae angen uwchgyfeirio digwyddiadau o strwythurau ymateb lleol i rai cenedlaethol, a'r llwybrau ar gyfer gwneud hynny.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi trefniadau ymarferol, pendant ar waith i sicrhau y gall ymatebwyr cenedlaethol weithio gyda'r pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth mewn ffordd fwy cydgysylltiedig heb ddyblygu diangen.

**Argymhelliad 5.** Y tu ôl i'r holl systemau parodrwydd a gwydnwch brys mae'r staff ymroddedig o fewn sefydliadau ymatebwyr sy'n gweithio'n ddiflino i gadw pobl yn ddiogel ac i leihau effaith argyfyngau, yn aml yn rhoi eu hunain mewn perygl wrth amddiffyn eraill. Mae'r Pwyllgor yn dymuno cofnodi ein diolch diffuant

i'r ymatebwyr brys a'r gwirfoddolwyr o bob cwr o Gymru am eu gwasanaeth a'u hymrwymiad i ddiogelu ein cymunedau.

**70.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod y gweithlu ymroddedig hwn yn cynrychioli sylfaen ddynol system gwydnwch Cymru. Heb sgiliau, barn ac ymrwymiad y rhai sy'n gweithio o fewn sefydliadau ymatebwyr, ni fyddai Cymru yn gallu gwrthsefyll nac ymdopi'n effeithiol ag argyfyngau yn y dyfodol. Felly, mae'n hanfodol bod y gweithlu a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi yn wydn eu hunain.

**71.** Mae cryfhau gwydnwch y gweithlu hanfodol hwn yn hollbwysig i gryfhau gwydnwch Cymru gyfan. Felly, credwn fod angen strategaeth gweithlu parodrwydd mewn argyfwng i gefnogi prosesau recriwtio a chadw ar draws rolau ymateb allweddol, a sicrhau bod capasiti gweithredol yn gallu cael ei gynnal yn ystod digwyddiadau hir neu gydamserol. Dylai'r strategaeth hon hefyd sicrhau bod gan Gymru lefelau staffio digonol gyda'r cymysgedd cywir o sgiliau a phrofiad arbenigol, a bod cynlluniau olyniaeth ar waith ar gyfer rolau arwain allweddol.

**72.** Mae ymatebwyr brys yn gweithio mewn amgylchedd llawn straen a gwasgedd uchel, sy'n amlygu pwysigrwydd mesurau i gefnogi eu llesiant, atal gorflinder a sicrhau y gall staff gynnal perfformiad effeithiol yn ystod cyfnodau o alw uwch.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, erbyn mis Rhagfyr 2026, yn cyhoeddi strategaeth gweithlu parodrwydd am argyfyngau sy'n nodi sut y bydd yn sicrhau bod strwythurau argyfyngau sifil posibl diwygiedig Cymru yn cael eu hategu gan weithlu cynaliadwy a gwydn gyda'r gallu, y sgiliau a'r sefydlogrwydd hirdymor sydd eu hangen i ymateb yn effeithiol i argyfyngau yn y dyfodol.

**73.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod sefydliadau sydd â'r dasg o arwain ymdrechion cynllunio ac ymateb i argyfyngau wedi gwneud gwaith sylweddol ers y pandemig i wella eu dealltwriaeth a'u rheolaeth ar y cyd o risgiau, ac i resymoli gweithdrefnau ymateb. Roeddem yn falch o glywed adborth cadarnhaol ar y cyfan gan y sefydliadau hyn am y gwelliannau a wnaed.

**74.** Fodd bynnag, credwn fod rhywfaint o ffordd i fynd i feithrin hyder llwyr bod strwythurau ymateb brys Cymru mor hyblyg ac effeithiol â phosibl. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y trefniadau presennol ar gyfer asesu effeithiolrwydd systemau argyfyngau sifil posibl Cymru yn ymddangos yn ansoddol i raddau helaeth, gan ddibynnu ar adrodd ar wersi a ddysgwyd gyda'r bwriad o addasu'r ymateb i argyfyngau yn y dyfodol.

**75.** Er ein bod yn credu bod gwerth yn y dull hwn, mae'r Pwyllgor yn cytuno bod gorddibyniaeth ar hunan-adrodd i asesu a yw'r strwythurau diwygiedig yn cyflawni gwelliannau mesuradwy i'r ffordd rydym yn ymateb i argyfyngau. Mae tystiolaeth oddrychol fel "adborth gan ymatebwyr"[60] neu'r ffaith bod digwyddiadau wedi mynd heibio heb ymwybyddiaeth gyhoeddus sylweddol wedi'i ddyfynnu fel prawf bod y trefniadau diwygiedig wedi arwain at ymatebion gwell i ddigwyddiadau yn y byd go iawn.[61]

**76.** Nid yw gofyn i'r cyhoedd ymddiried bod trefniadau parodrwydd ac ymateb i argyfyngau Cymru mor effeithiol â phosibl dim ond oherwydd nad oes unrhyw aflonyddwch amlwg wedi bod yn ddigonol. Credwn y dylid sicrhau bod tystiolaeth gadarn, wiriadwy ar gael yn y parth cyhoeddus i gadarnhau'r honiadau hyn. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i bobl Cymru fod ein systemau ymateb i argyfyngau yn gwella'n barhaus, yn dysgu o brofiad ac yn gweithio cystal ag y gallent.

**77.** Rydym hefyd yn credu bod angen cyfres o ddangosyddion perfformiad mesuradwy, tebyg i'r rhai a ddefnyddir mewn awdurdodaethau eraill, i asesu effeithiolrwydd system argyfyngau sifil posibl Cymru. Byddai system fwy cadarn ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd strwythurau argyfyngau sifil posibl diwygiedig Cymru yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad wedi'u diffinio ymlaen llaw ac wedi'u halinio ag arfer gorau rhyngwladol yn rhoi cyfres glir a mesuradwy o feini prawf i'r cyhoedd i werthuso parodrwydd Cymru ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol ac effeithiolrwydd ein mecanweithiau ymateb, yn ogystal â monitro gwelliannau dros amser.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o ddangosyddion perfformiad meintiol i asesu effeithiolrwydd systemau argyfyngau sifil posibl Cymru, gan gynnwys lefelau parodrwydd, amseroedd ymateb, cyfranogiad mewn ymarferion a gweithredu gwersi a ddysgwyd. Dylid adrodd yn erbyn y dangosyddion hyn yn flynyddol.

**78.** Roedd y Pwyllgor yn falch bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am waith craffu a gwelliant parhaus, a chroesawodd rôl ein Pwyllgor wrth asesu effeithiolrwydd y newidiadau y mae wedi'u gwneud i strwythurau argyfyngau sifil posibl.[62] Rydym yn croesawu'r ffaith bod cofrestr risg argyfyngau sifil posibl

[60] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Ionawr 2026, paragraff 3
[61] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 81
[62] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Ionawr 2026, paragraff 9

cenedlaethol Cymru wedi cael ei harchwilio'n annibynnol gan drydydd parti arbenigol – Academi Gwydnwch y DU. Fodd bynnag, rydym yn pryderu mai'r gofrestr risg, i bob golwg, yw'r unig elfen bwysig o'r strwythurau diwygiedig sydd wedi bod yn destun gwaith craffu allanol annibynnol o'r fath.

**79.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gwerth mewn tynnu ar arbenigedd o bob cwr o'r DU, yn enwedig gan fod llawer o argyfyngau, fel achosion o bandemig, yn drawsffiniol eu natur. Felly mae'n synhwyrol defnyddio mecanweithiau sefydledig ar gyfer gwaith craffu annibynnol, fel y paneli arbenigol sy'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU, i asesu parodrwydd ledled y DU lle bo'n briodol.

**80.** Fodd bynnag, fel y mae cynllun cyflawni Fframwaith Gwydnwch Cymru yn ei bwysleisio, prif gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cadw dinasyddion Cymru yn ddiogel.[63] Mae'n anochel y bydd argyfyngau yn y dyfodol yn codi o fewn ffiniau Cymru, a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol yn bennaf am eu rheoli. Yn yr un modd, fel y dangosodd yr ymateb i'r pandemig COVID-19, mae gan lywodraethau datganoledig ledled y DU y pwerau i fabwysiadu gwahanol safbwyntiau o ran parodrwydd ac ymateb i argyfyngau a all wneud gwahaniaeth sylweddol i'r canlyniadau i'w poblogaethau.

**81.** Felly, cred y Pwyllgor y dylai trefniadau argyfyngau sifil posibl Cymru ei hun fod yn destun gwaith craffu annibynnol ac na ddylai parodrwydd Cymru ddibynnu'n llwyr ar strwythurau dan arweiniad y DU ar gyfer gwaith craffu a goruchwylio.

**82.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi dewis gwrthod argymhelliad ymchwiliad COVID-19 y DU i greu corff statudol sy'n gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth annibynnol o barodrwydd a gwydnwch ar gyfer argyfyngau sifil y system gyfan ar y sail y byddai'n dargyfeirio adnoddau i ffwrdd o'u gallu i baratoi ar gyfer digwyddiadau yn y byd go iawn ac ymateb iddynt.

**83.** Mae'r Pwyllgor yn nodi pwysigrwydd gwerth am arian wrth benderfynu a ddylid sefydlu corff statudol newydd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd archwiliadau allanol annibynnol wrth gyfrannu at berfformiad gwell a all arwain at arbedion a buddion cost.

**84.** Credwn fod gwerth gwirioneddol mewn defnyddio arbenigedd allanol i brofi rhagdybiaethau, gofyn cwestiynau anodd, herio rhagfarnau a lliniaru 'meddwl fel grŵp'. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad Ymchwiliad COVID-19 y DU y dylai

[63] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Gwydnwch Cymru: Cynllun Cyflawni 2025, tudalen 3

Llywodraeth Cymru ddefnyddio "timau coch" o'r tu allan i'r llywodraeth a'r gwasanaeth sifil i graffu ar yr egwyddorion, y dystiolaeth, y polisïau a'r cyngor sy'n ymwneud â pharodrwydd ar gyfer argyfyngau sifil system gyfan a gwydnwch iddynt, a'u herio. Dylai'r gwaith craffu allanol hwn fod yn berthnasol i gyfanrwydd ein systemau gwydnwch ac argyfyngau sifil posibl, ac nid dim ond i rannau ar wahân.

**85.** Mae ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU a'r diweddariadau chwe misol dilynol yn cyfeirio at ymdrechion i "sicrhau bod galluoedd timau coch cynaliadwy o fewn Llywodraeth Cymru ac o fewn y gymuned ymateb" a "sefydlu prosesau asesu ac archwilio annibynnol ar gyfer ein gweithgareddau."[64].

**86.** Er bod y rhain i'w croesawu mewn egwyddor, mae'r Pwyllgor yn gresynu nad oes llawer o wybodaeth ar gael yn y parth cyhoeddus i ddangos a yw'r gweithgareddau hyn yn sbarduno gwelliant a sut, ac a yw newidiadau sylweddol wedi'u gwneud o ganlyniad i'r adborth a ddaeth i law.

**87.** Yn unol â'r egwyddor o ran tryloywder, cred y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n dangos sut mae gwaith craffu a chyngor allanol yn cael eu gweithredu er mwyn gwella gwydnwch Cymru.

**88.** Yn yr un modd, er bod y Pwyllgor yn cydnabod yr angen i gydbwyso ystyriaethau diogelwch cenedlaethol â thryloywder, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiwn gyhoeddus o gofrestr risg genedlaethol Cymru, fel y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud.[65]

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu mecanwaith priodol ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd ac annibynnol o drefniadau argyfyngau sifil posibl Cymru. Dylai'r mecanwaith hwn ddarparu gwaith craffu trylwyr ac annibynnol tra'n parhau i fod yn gymesur, yn gynaliadwy ac yn gost-effeithiol. Wrth benderfynu ar y dull mwyaf addas, dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio sefydliadau presennol at y diben hwn.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dangosfyrddau cyhoeddus i fonitro ei chynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion Ymchwiliad COVID-19 y DU ac unrhyw argymhellion dilynol a wneir

---

[64] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ail ddiweddariad chwe mis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU, Ionawr 2026
[65] Llywodraeth y DU, Cofrestr Risg Genedlaethol 2025 (Saesneg yn unig), Ionawr 2025

gan archwiliadau allanol annibynnol, er mwyn gwella tryloywder o ran gwneud penderfyniadau ac i alluogi gwaith craffu effeithiol.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fersiwn gyhoeddus o Gofrestr Risg Genedlaethol Cymru i ddarparu asesiadau cyfredol o debygolrwydd ac effaith bosibl yr ystod o risgiau a allai effeithio'n uniongyrchol ar Gymru a'r cyhoedd yn gyffredinol.

# 3. Ymarfer Pegasus

**89.** Canfu Modiwl 1 o Ymchwiliad COVID-19 y DU fod Cymru wedi methu â gweithredu paratoadau pwysig ac angenrheidiol ar gyfer pandemig a nodwyd yn ystod ymarferion parodrwydd blaenorol.

> *"Er gwaethaf y nifer sylweddol o ymarferion a gynhaliwyd ac adroddiadau a gynhyrchwyd ar barodrwydd ar gyfer pandemig gan lywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig ac asiantaethau iechyd y cyhoedd, ni chafodd y gwersi a ddysgwyd ganddynt eu rhannu a'u trafod yn ddigonol. Mewn llawer o achosion, er eu bod wedi'u cofnodi'n enwol mewn dogfennaeth, ni weithredwyd ar y dysgu a'r argymhellion, neu fe'u hanghofiwyd."*[66]

**90.** Mae'r adroddiad Modiwl 1 yn nodi bod ymarferion a gynhaliwyd cyn y pandemig wedi tynnu sylw at nifer o gamau y gellid bod wedi'u cymryd i baratoi ar gyfer y fath bosibilrwydd, gan gynnwys sefydlu system brofi ac olrhain cysylltiadau, systemau ynysu ymarferol, capasiti ymchwydd, cronni offer amddiffynnol personol a mesurau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed.

**91.** Er gwaethaf hyn, canfu'r ymchwiliad fod y dull o gynnal ymarferion wedi mynd yn rhy fiwrocrataidd, gyda gormod o ffocws ar gynnal ymarferion a chynhyrchu adroddiadau yn hytrach na gweithredu ar y canfyddiadau a dysgu gwersi i wella ymatebion yn y dyfodol. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr ymarferion hyn yn gwneud llawer i wella parodrwydd. Daeth i'r casgliad y dylai'r system gyfan o barodrwydd a gwydnwch ar gyfer pandemig hefyd fod wedi bod yn destun profion straen mwy trylwyr, mwy rheolaidd a chyfunol. Dylai Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gynnal ymarfer ymateb pandemig ledled y DU o leiaf bob tair blynedd.

**92.** Mae Ymarfer Pegasus yn ymarfer parodrwydd ar gyfer pandemig haen un a gynhaliwyd yn ystod hydref 2025. Efelychodd yr ymarfer, dan arweiniad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn partneriaeth ag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, achos newydd o enterofeirws, ond mae'n anelu at fod yn berthnasol ar draws ystod o glefydau a dulliau trosglwyddo. Cynhaliwyd ymarferion byw ar 18

[66] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraff 5.58

Medi, 9 Hydref a 30 Hydref 2025. Mae pedwerydd cam sy'n canolbwyntio ar adferiad wedi'i drefnu ar gyfer 2026.[67]

**93.** Nod Pegasus yw profi straen ar allu'r DU i ymateb i bandemig sy'n symud yn gyflym, gan ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau, cydgysylltiad a gwydnwch. Mae'n cynnwys GIG Lloegr, y llywodraethau datganoledig, adrannau Llywodraeth y DU a phob un o'r 38 o'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, ynghyd â busnesau, academyddion a rhanddeiliaid allanol.

## Cwmpas yr ymarfer

**94.** Clywodd y Pwyllgor safbwyntiau gwahanol ar gwmpas Ymarfer Pegasus. Disgrifiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr ymarfer fel rhywbeth sy'n newid popeth, gan nodi ei ffocws ar fesurau iechyd cyhoeddus a chymdeithasol ehangach ac ystyriaethau polisi trawslywodraethol, a oedd yn nodi gwyriad o ymarferion blaenorol.[68]

**95.** Tynnodd rhanddeiliaid eraill sylw at fan dall o amgylch risgiau cyfansawdd (lle mae dwy risg neu fwy yn digwydd ar yr un pryd), megis achosion o glefydau heintus yn cyd-daro â llifogydd difrifol neu fethiant cyfleustodau hirfaith. Pwysleisiodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (SWFRS) yr angen i baratoi ar gyfer digwyddiadau o'r fath a theimlai fod ymarferion fel Pegasus yn tueddu i ganolbwyntio'n gul ar achosion o bandemig ac nad ydynt yn ystyried argyfyngau cydredol.[69]

**96.** Roedd CBFJC yn feirniadol iawn o Ymarfer Pegasus am ganolbwyntio gormod ar iechyd ac am beidio â rhoi ystyriaeth ddigonol i gyfaddawdau rhwng mesurau fel cyfyngiadau symud a chau ysgolion.[70] Roedd hefyd yn cwestiynu a oedd Ymarfer Pegasus wedi cyflawni ei fwriad i ddefnyddio dull y pedair gwlad, gan awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn gyfranogwr yn hytrach na meddu ar rôl drefnu.

**97.** Clywodd y Pwyllgor feirniadaeth hefyd ynghylch diffyg cyfranogiad rhanddeiliaid, yn enwedig o'r sectorau gofal cymdeithasol a'r sectorau angladdau

[67] GIG Lloegr, Parodrwydd ar gyfer pandemig ac Ymarfer Pegasus (Saesneg yn unig), Gorffennaf 2025
[68] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 12 Tachwedd 2025, paragraffau 53-54
[69] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 103
[70] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 209

a phrofedigaeth.[71] Roedd pryderon pellach yn cynnwys diffyg eglurder ynghylch cylch gorchwyl a meini prawf llwyddiant yr ymarfer.[72]

**98.** Cydnabu WASUT fod gan Ymarfer Pegasus ffocws cryf ar iechyd, ond dywedodd nad oedd hyn yn atal Grwpiau Cydgysylltu Strategol rhag ystyried ystod ehangach o faterion, gan gynnwys iechyd anifeiliaid, addysg, mudiadau cymdeithasol a chyfyngiadau symud.[73]

## Cipio'r gwersi o ymarferion amlasiantaeth

**99.** Roedd y sefydliadau ymateb brys a roddodd dystiolaeth i'n Pwyllgor yn unfrydol ynghylch pwysigrwydd ymarferion parodrwydd. Roedd WASUT yn tynnu sylw at werth Ymarfer Pegasus wrth ddiogelu gwybodaeth sefydliadol o'r pandemig, gan rybuddio y bydd profiad bywyd yn lleihau dros amser wrth i staff adael y gweithlu. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o ddod â phobl ynghyd i gofio strategaethau a gwersi a ddysgwyd.[74] Dywedodd MWWFRS wrth y Pwyllgor fod angen gwneud llawer mwy o ran profi ac ymarfer, gan bwysleisio mai dim ond ar ôl iddynt gael eu profi a gwersi wedi'u hymgorffori mewn ymarfer yn y dyfodol y mae cynlluniau'n effeithiol.[75]

**100.** Er eu pwysigrwydd, mynegwyd pryderon bod cymryd rhan mewn ymarferion yn gosod pwysau sylweddol ar adnoddau, a all effeithio'n andwyol ar ddarparu gwasanaethau'r rheng flaen. Rhybuddiodd WASUT y byddai nifer y senarios brys posibl y byddai angen eu hymarfer er mwyn paratoi'n ddigonol yn arwain at gost a straen sylweddol ar adnoddau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Cofrestr Risg Cymru yn rhestru dros 100 o risgiau, gan greu posibilrwydd gwirioneddol o fuddsoddi adnoddau mewn cynllunio ar gyfer digwyddiadau a allai byth ddigwydd.[76]

**101.** Nododd sawl rhanddeiliad ddiffyg mecanwaith cadarn ar gyfer rhannu gwersi ar draws asiantaethau yng Nghymru ac awgrymwyd creu storfa ganolog ar

[71] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 238
[72] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 210
[73] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 110
[74] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 71
[75] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 21
[76] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 118

gyfer dysgu amlasiantaeth a monitro cynnydd yn erbyn argymhellion.[77] Nododd MWWFRS y byddai storfa ganolog yn galluogi ymatebwyr Categori 1 a 2 i gael mynediad at wersi a ddysgwyd a gwella sesiynau dadfriffio amlasiantaeth strwythuredig.[78]

**102.** Nododd WASUT hefyd anghysondebau yn y ffordd yr oedd Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn ymgysylltu ag Ymarfer Pegasus, a galwodd am fwy o eglurder a dull unedig o ran ymarferion yn y dyfodol.[79] Nododd fod adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU yn argymell archwilio creu corff cenedlaethol annibynnol i ddarparu goruchwyliaeth, cydgysylltiad, ac o bosibl gosod safonau ar gyfer parodrwydd, gwydnwch ac ymateb i argyfyngau. Awgrymwyd y byddai ymarferion sy'n profi cydymffurfiaeth â safonau o'r fath yn gwneud parodrwydd yn fwy cyson a mesuradwy.

> *"The module 1 recommendation [10] included the suggestion of a national body… I think that there could be something worth exploring…because when we come to things like standards—standards of emergency preparedness, resilience and response, both planning and response—holding exercises to test adherence to standards, I think, actually gives something that could become much more measurable. And, of course, sadly we know that what gets measured gets done. So, I think that there might be an opportunity there with some form of national body, which was, I think, the final recommendation from the inquiry."*[80]

**103.** Tynnodd eraill, fel MWWFRS, sylw at Uned Hyfforddi ac Ymarfer Gwydnwch Amlasiantaeth yr Alban (SMARTEU) fel model enghreifftiol, gan nodi ei rôl wrth gydgysylltu ymarferion cenedlaethol a sicrhau bod argymhellion o sesiynau ôl-drafod yn cael eu gweithredu a bod gwersi yn cael eu dysgu. Awgrymodd hefyd y gallai uned o'r fath helpu i leddfu'r heriau o ran capasiti ac adnoddau y mae sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn ymarferion yn eu hwynebu.

[77] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 94
[78] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 99
[79] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 72
[80] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 105

> *"In terms of the testing and exercising regime currently, I think that there is a strain on partnership organisations being able to free up capacities to be able to attend them, and I think there are lessons that we could learn from our Scottish colleagues in relation to their set-up. So, the SMARTEU is, for me, is an exemplar of what can be achieved when you've got a specific group specifically looking at national testing and exercising, and the dissemination of the learning from that into other partner agencies."*[81]

**104.** Awgrymodd MWWFRS y byddai cael uned hyfforddi ac ymarfer gwydnwch bwrpasol yn galluogi llawer mwy o ffocws ar yr ymarferion cenedlaethol hynny yma yng Nghymru, ac yn helpu i nodi a mesur yr elfennau pwysicaf y dylid eu profi yn ystod yr ymarferion hynny. Nododd fod ymarferion sy'n efelychu ymatebion i rai risgiau yn anodd iawn i'w profi fel gwasanaeth brys unigol neu ddeuol, ac eglurodd fod angen y cymorth hwnnw gan y corff cenedlaethol hwnnw i'w rhedeg yn effeithiol.[82]

## Cyfranogiad anghyson y sector gwirfoddol

**105.** Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wrth y Pwyllgor, er ei fod yn teimlo bod ei gyfranogiad yn Ymarfer Pegasus yn werth chweil, fod problemau gyda rhannu data rhwng y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yn golygu nad oedd yn gallu chwarae rhan lawn. Disgrifiodd deimlo fel 'teithiwr cadair freichiau' yn hytrach na chyfranogwr llawn, gyda mynediad cyfyngedig at wybodaeth a dim rôl ffurfiol mewn gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau.[83]

**106.** Roedd sefydliadau eraill, fel Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, yn fwy cadarnhaol ynglŷn â chyfranogiad y sector yn yr ymarfer, ond roedd yn teimlo bod anghydraddoldeb parch weithiau rhwng y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus mewn perthynas â chynllunio ac ymateb i argyfyngau.

> *"The big thing for me is around that mutual respect for the voluntary sector. Sometimes, the wording 'third sector' is seen as third rate, and actually, the voluntary sector, volunteers and Community have a*

[81] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 22
[82] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 114
[83] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 68

> *massive role to play. So, it's about a respect issue in some quarters, I think."*[84]

**107.** Nid ymddengys bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwybodol o sefydliadau gwirfoddol yn chwarae rhan ffurfiol yn Ymarfer Pegasus.[85]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**108.** Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi chwarae "rhan lawn" yn Ymarfer Pegasus, a dywedodd ei bod wedi rhoi cyfle gwerthfawr i brofi ei strwythurau llywodraethu ac ymateb diwygiedig, gan gynnwys y newid o gynllunio i ymateb gweithredol, y gallu i gynyddu systemau a galluoedd iechyd a gofal, integreiddio systemau data, a chydgysylltu partneriaid. Sefydlwyd Grŵp Cydgysylltu Cymru i oruchwylio gwaith cynllunio a chyfranogiad Cymru yn yr ymarfer.[86]

**109.** Dywedodd y Prif Weinidog fod Cymru wedi'i chynrychioli ar y tîm glas (y tîm a gymerodd ran sy'n gyfrifol am ymateb i'r senario) a'r tîm coch (y tîm sy'n gyfrifol am ddylunio'r ymarfer). Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi helpu i lunio amcanion yr ymarfer ac wedi defnyddio'r ymarfer i brofi cynlluniau a ddatblygwyd ers y pandemig.

> *"Early in 2025, we established the Exercise Pegasus co-ordination group…that brought together all the major departments across Welsh Government and the local responder community so that they could start preparing for the exercise and that we could feed into that.*
>
> *Alongside that, there were two specific lead-in exercises, Exercise SOLARIS and Exercise ALKARAB…There was the opportunity through these two exercises and the co-ordination group to take on board points around how this scenario would be developed. That was taken on board by the red team. It also informed the formulation of specific objectives that we wanted to test in Exercise Pegasus.*
>
> *So, there was an agreed set of objectives that the First Minister and Cabinet endorsed so that we could road test and stress test the plans that we had developed since the pandemic. And to that end, it was a*

[84] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 77
[85] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 73
[86] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg: Cymru'n cymryd rhan yn yr ymarfer ymateb pandemig mwyaf erioed ledled y DU, Ionawr 2025

> *really useful and valuable exercise that is generating significant learning."*[87]

**110.** Nododd swyddogion hefyd fod y profiad o gymryd rhan yn Pegasus wedi hyrwyddo rhyngweithio trawsffiniol, cydweithrediad ac ymgysylltiad rhyngweinidogol â gwledydd eraill y DU.[88]

**111.** Pwysleisiodd y Prif Weinidog fod risgiau cyfansawdd yn cael eu profi'n rheolaidd fel rhan o waith busnes fel arfer, hyd yn oed os nad ydynt yn ffocws i Pegasus. Fe wnaeth y Prif Weinidog hefyd wrthod awgrymiadau bod gofal cymdeithasol yn absennol, gan ddatgan ei fod yn elfen allweddol o'r ymarfer.[89]

**112.** Cadarnhaodd y Prif Weinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ar storfa ganolog ar gyfer gwersi a ddysgwyd, gan ymateb yn uniongyrchol i adborth gan ymatebwyr Categori 1 a gwersi a ddysgwyd yn sgil Pegasus.[90] Pwysleisiodd fod tryloywder ar ganlyniadau ymarferion yn flaenoriaeth, ac ymrwymodd i adrodd ar ôl i'r broses ddod i ben. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i rannu arferion gorau yn y maes hwn.[91]

## Barn y Pwyllgor

**113.** Efallai mai'r feirniadaeth fwyaf brathog o ddull y DU o gynnal ymarferion parodrwydd gan Ymchwiliad COVID-19 y DU oedd eu bod yn "fiwrocrataidd ac aneffeithiol", gyda'r prif ffocws ar gynnal yr ymarfer a llunio adroddiad, yn hytrach nag ar ddysgu'r gwersi a gweithredu eu hargymhellion.[92]

**114.** Mae'r ffocws hwn ar broses yn hytrach na chanlyniad yn risg barhaus ac yn un na all Cymru fforddio ei hailadrodd. Ni lwyddodd y Pwyllgor i ddod i farn ynghylch a yw Ymarfer Pegasus yn cynrychioli ymadawiad ystyrlon o'r duedd hon, o ystyried bod yr ymarfer yn dal i fynd rhagddo ac nad yw Llywodraeth Cymru wedi adrodd eto ar y gwersi a ddysgwyd a'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad. Rydym yn cefnogi'n gryf argymhelliad Ymchwiliad COVID-19 y DU y dylid cyhoeddi cynllun

[87] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 105-107
[88] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 110
[89] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 116, 118
[90] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 125, 138
[91] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 127
[92] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraff 5.59

gweithredu yn nodi'r camau penodol a gymerir mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymarfer o fewn chwe mis i'w gwblhau.

**115.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi comisiynu system rheoli gwersi i gofnodi gwersi o ymarferion, digwyddiadau ac ymchwiliadau, fel cam gweithredu uniongyrchol yn sgil dysgu o Pegasus. Mae hyn i'w groesawu ac mae'n adlewyrchu'r dystiolaeth a glywsom gan sefydliadau ymatebwyr o'r angen am adnodd o'r fath.

**116.** Roeddem yn falch o glywed adborth cadarnhaol gan y sefydliadau ymatebwyr a gymerodd ran yn Ymarfer Pegasus. Mae'n amlwg bod ymarferion rheolaidd, sy'n canolbwyntio ar ddysgu a gwella, yn hanfodol i sicrhau bod ein systemau'n gweithio'n effeithiol a'n bod yn barod i ymateb i amrywiaeth o senarios posibl. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn ymarfer, ac rydym yn ymwybodol o'r angen i gydbwyso cynnal gwasanaethau'r rheng flaen â pharatoi ar gyfer y dyfodol.

**117.** Pan ofynnwyd a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried sefydlu uned hyfforddi ac ymarfer amlasiantaeth genedlaethol, yn debyg i SMARTEU yr Alban, cyfeiriodd y Prif Weinidog at y penderfyniad i gomisiynu system rheoli gwersi fel tystiolaeth bod yr angen hwn eisoes wedi cael sylw.

**118.** Cred y Pwyllgor y byddai cwmpas a chylch gorchwyl uned hyfforddi ac ymarfer amlasiantaeth genedlaethol o'r fath yn mynd y tu hwnt i ddarparu mecanwaith ar gyfer cadw a rhannu dysgu. Yn hollbwysig, byddai hefyd yn chwarae rhan wrth gydgysylltu ymarferion ac yn helpu i liniaru'r heriau o ran adnoddau y mae sefydliadau sy'n cymryd rhan yn eu hwynebu. Mae tystiolaeth gan randdeiliaid yn awgrymu y gallai uned o'r math hwn helpu i leihau'r baich gweithredol ar wasanaethau brys drwy ddarparu capasiti cynllunio a chyflenwi ar y cyd, gan sicrhau nad yw ymarferion yn effeithio'n anghymesur ar wasanaethau'r rheng flaen. Byddai hefyd yn darparu capasiti ac arbenigedd i alluogi cynnal ymarferion yng Nghymru i brofi straen ein systemau ymateb yn erbyn yr ystod lawn o risgiau a nodwyd yng nghofrestr risg genedlaethol Cymru.

**119.** Cred y Pwyllgor fod diffyg paratoi ar gyfer risgiau cyfansawdd yn fwlch yng nghwmpas Ymarfer Pegasus, a chred fod yn rhaid integreiddio'n llawn y gwaith cynllunio ar gyfer senarios risg cyfansawdd i holl strwythurau parodrwydd diwygiedig Cymru. Yn benodol, mae angen i ymarferion amlasiantaeth yn y dyfodol ymgorffori senarios risg cyfansawdd i sicrhau ein bod yn ymarfer yn dda ar gyfer y fath ddigwyddiad. Yn yr un modd, rhaid cyfrif risgiau cyfansawdd yn

benodol yng Nghofrestr Risg Genedlaethol Cymru, a dylid modelu ymatebion yn ofalus fel bod trefniadau cynllunio ac ymateb Cymru yn cyfrif am argyfyngau a allai ddigwydd ar yr un pryd neu ryngweithio mewn ffyrdd cymhleth.

**120.** Credwn hefyd y gellid gwneud mwy i gynnwys ystod ehangach o sectorau mewn ymarferion parodrwydd yn y dyfodol, o ystyried y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae mewn ymateb i argyfyngau ac adferiad. Fel Pwyllgor, fe wnaethom fyfyrio ar ein profiadau ein hunain yn ystod y pandemig a'r sylwadau a gawsom gan broffesiynau'r rheng flaen fel y sectorau Heddlu, Cartrefi Gofal a Phrofedigaeth a oedd, er eu bod yn fwy tebygol o gael COVID-19 drwy ddod i gysylltiad â phobl heintiedig yn eu gwaith o ddydd i ddydd, yn methu â chael mynediad at y cyfarpar diogelu personol hanfodol (PPE) yr oedd eu hangen arnynt i gadw eu hunain yn ddiogel tan yn hwyrach na gweithwyr proffesiynol eraill y rheng flaen. Fe wnaeth Ffederasiwn yr Heddlu yng Nghymru hefyd godi pryder gyda'r Aelodau yn ystod y pandemig eu bod yn cyfiawnhau unrhyw fath o flaenoriaethu wrth gyflwyno'r brechlyn.

**121.** Nodwn y bydd stocio PPE, caffael ac agweddau eraill sy'n ymwneud â pharodrwydd yn cael eu trafod yn fanwl ym modiwlau Ymchwiliad COVID-19 y DU yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom drwy gydol ein gwaith ar Fodiwl 1 yn tynnu sylw at ddull rhagweithiol o gefnogi sectorau hanfodol y rheng flaen i'w cadw'n ddiogel a lleihau lledaeniad yr haint yn ystyriaeth bwysig ar gyfer cynllunio a pharodrwydd ar gyfer argyfwng. Credwn y byddai parodrwydd Cymru ond yn elwa o gynnwys ystod ehangach o sectorau yr effeithir arnynt mewn ymarferion parodrwydd yn y dyfodol.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu uned hyfforddi ac ymarfer amlasiantaeth genedlaethol—tebyg i SMARTEU yr Alban—i gydgysylltu ymarferion i brofi'r ystod lawn o risgiau a nodwyd yn y gofrestr risg genedlaethol, lliniaru'r heriau o ran adnoddau y mae sefydliadau sy'n cymryd rhan yn eu hwynebu a lledaenu dysgu i asiantaethau partner.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod strwythurau parodrwydd diwygiedig Cymru, Cofrestr Risg Genedlaethol Cymru, ac ymarferion amlasiantaeth yn y dyfodol yn cyfrif yn llawn ar gyfer senarios risg cyfansawdd ac yn cynllunio ar gyfer ymateb iddynt.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i integreiddio'n llawn gofal cymdeithasol a sectorau hanfodol eraill mewn gwaith cynllunio, cyflawni a gwneud penderfyniadau.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno protocol ymgysylltu ffurfiol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol mewn ymarferion amlasiantaeth, gan sicrhau mynediad cyfartal at wybodaeth, rolau diffiniedig, a chyfleoedd i gyfrannu at waith cynllunio a chyflawni.

# 4. Cyfraniad y sector gwirfoddol at wydnwch

**122.** Canfu Ymchwiliad COVID-19 y DU fod y rhai a oedd yn gyfrifol am gynllunio at argyfyngau yn gyfrifol am fethu ag ymgysylltu'n briodol â'r rhai sy'n adnabod eu cymunedau orau, gan gynnwys y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol.[93] Nid oedd ymarferion parodrwydd a gynhaliwyd cyn pandemig COVID-19 yn ystyried rôl y sectorau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol yn ddigonol, er gwaethaf y ffaith eu bod yn "gwbl hanfodol i gynllunio pandemig".[94]

**123.** Fodd bynnag, nododd ymchwiliad y DU fod Cymru wedi gwneud yn well na gwledydd eraill y DU o ran cynnwys y sector gwirfoddol wrth gynllunio at argyfyngau.[95] Nododd y Dadansoddiad o Fylchau a gomisiynwyd gan Bwyllgor Diben Arbennig Cymru hefyd fod "grwpiau cymunedol a strwythurau gwirfoddoli wedi'u hymgorffori'n fwy yng Nghymru" ond nododd "nid yw cyflawniad yr agwedd hon ar yr ymateb wedi'i gynnwys yn Adroddiad Modiwl 1".[96]

**124.** Yn yr un modd ag ymchwiliad y DU, tynnodd Pwyllgor Diben Arbennig Cymru sylw at bwysigrwydd ymgorffori mwy o wybodaeth ac arbenigedd lleol wrth gynllunio parodrwydd a gwydnwch. Nododd fod angen adolygu sut mae strwythurau gwydnwch yng Nghymru yn cysylltu, yn cydweithio ac yn integreiddio â'r gymuned a'r sector gwirfoddol ac i ymchwilio i fanteision dull penodol i Gymru sy'n ymgorffori dysgu gan gymunedau i gryfhau systemau a strwythurau gwydnwch Cymru.[97]

## Tanddefnyddio'r sector

**125.** Clywodd y Pwyllgor gan nifer o randdeiliaid fod gan y sector gwirfoddol rôl hanfodol i'w chwarae o ran gwydnwch a pharodrwydd. Nododd CGGC fod y sector yn gweithredu fel pont rhwng cymunedau ac asiantaethau statudol, gan sicrhau bod gwybodaeth ac adborth yn llifo'n effeithiol i'r ddau gyfeiriad.[98]

---

[93] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, crynodeb gweithredol.
[94] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraff 5.55.
[95] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraff 6.67.
[96] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19, Chwefror 2025, t.7, 21
[97] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru, Adroddiad ar y bylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig COVID-19 y dylid eu harchwilio ymhellach: Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU 18, 21
[98] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraffau 20-21

Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau wrth y Pwyllgor fod sefydliadau lleol, a arweinir gan y gymuned, wedi'u hymgorffori'n ddwfn yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ac yn darparu cefnogaeth mewn ffyrdd y mae pobl yn teimlo'n gyfforddus yn cael mynediad atynt. Mae'r amgylcheddau dibynadwy, di-stigma hyn yn cynnig gwasanaeth atodol hanfodol i ddarpariaeth ffurfiol awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn enwedig gan fod gwasanaethau statudol wedi dod yn fwy canolog ac wedi ymbellhau o gymunedau ymylol.[99]

**126.** Er gwaethaf rôl hanfodol y sector gwirfoddol, clywodd ein Pwyllgor safbwyntiau cymysg ynghylch eu cyfranogiad o ran trefniadau argyfyngau sifil posibl diwygiedig Cymru. Dywedodd CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r Groes Goch Brydeinig oll wrth y Pwyllgor eu bod yn gwerthfawrogi eu cyfranogiad mewn Fforymau Lleol Cymru Gydnerth. Roedd Mantell Gwynedd yn gadarnhaol bod rôl sefydliadau gwirfoddol wedi cryfhau o fewn Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gogledd Cymru ers y pandemig.[100]

**127.** Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor fod sefydliadau gwirfoddol yn aml yn teimlo eu bod wedi'u gwthio i'r ymylon. Dywedodd Race Council Cymru, y sefydliad ymbarél sy'n cynrychioli cymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, nad oedd neb wedi cysylltu â nhw ynghylch cynllunio gwydnwch ers y pandemig, er gwaethaf y safbwyntiau gwerthfawr y gallent eu cynnig.

> *"I do think that, having seen the devastating impact that COVID had on black, Asian and minority ethnic people, it is critical that black, Asian and minority ethnic research professors... should have been engaged in helping to build resilience, understanding and a platform for planning. It makes sense, but we've never been contacted."*[101]

**128.** Dywedodd sawl sefydliad gwirfoddol wrthym yr ymgynghorir â nhw yn rhyw hwyr yn aml mewn prosesau cynllunio, sy'n cyfyngu ar eu gallu i lunio penderfyniadau.

> *"The First Minister has been very clear in the framework about the role and the full role of the voluntary sector. That's clearly in the framework, but that strategic aim and that objective is not yet being*

[99] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 139
[100] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 32
[101] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 190

> *met through actual operational delivery, through process barriers on sharing data. I think there needs to be quite a rapid review to look at how we can make sure that the sector is engaged at that national and local level to make sure that the infrastructure is in place to be able to respond quickly and in the best way possible. Whatever happens, the sector will respond and do the best that it can. I think our feeling is that, with some more work and investment and really looking at some of those practical barriers, our response could be much better than it would be at this moment in time."*[102]

**129.** Ni chafodd yr un o'r sefydliadau gwirfoddol y clywodd y Pwyllgor ganddynt gyfle i gyfrannu eu safbwyntiau ar gofrestr risg argyfyngau sifil posibl Cymru.[103]

## Rhannu data rhwng asiantaethau statudol a sefydliadau gwirfoddol

**130.** Clywodd y Pwyllgor nad oedd sefydliadau gwirfoddol yn gallu cael mynediad at ddata yn ystod senarios argyfwng go iawn a fyddai'n eu galluogi i ymateb yn brydlon. Er enghraifft, dywedodd y Groes Goch Brydeinig nad oeddent yn gallu darparu cefnogaeth i bobl yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd diweddar yn Sir Fynwy gan nad oedd asiantaethau statudol yn fodlon rhannu data perthnasol â nhw. Roedd hyn yn eu hatal rhag cyrraedd y rhai mewn angen er gwaethaf y ffaith bod yr adnoddau a'r capasiti ar gael.

> *"We were being told by colleagues in the statutory sector—that there were vulnerable people out in communities that needed our support. We were there, we were ready. We had the ability to provide psychosocial support, practical support, cash-based assistance, but we were not given the details of the individuals who needed to be supported. So, we had to sit on our hands, knowing that we had vulnerable people who could have the support that we were sitting there ready to deliver."*[104]

---

[102] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 50
[103] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraffau 106-112.
[104] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 44

**131.** Pwysleisiodd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fod preifatrwydd data a llywodraethu gwybodaeth yn parhau i fod yn heriau sylweddol, gan ddisgrifio'r dirwedd ddeddfwriaethol bresennol fel maes dyrys. Galwodd am ddull sy'n trin rhannu data rhwng sefydliadau fel galluogwr tra'n cynnal amddiffyniadau ar gyfer gwybodaeth sensitif.[105]

**132.** Ond ymddengys nad yw'r problemau rhannu data hyn yn anorchfygol. Tynnodd y Groes Goch Brydeinig sylw at gydweithrediad rhyngddynt eu hunain, Llywodraeth Cymru a'r Post Brenhinol i sefydlu gwasanaeth dosbarthu presgripsiynau yn ystod y pandemig fel enghraifft o adeg lle y datryswyd problemau llywodraethu gwybodaeth a rhannu data, gan eu galluogi i ymateb yn effeithiol.[106]

**133.** Pwysleisiodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru y pwysigrwydd o ymgorffori partneriaethau mewn systemau yn hytrach na dibynnu ar berthnasoedd personol, gan nodi eu cytundeb cydweithredu wedi'i adnewyddu â'r Groes Goch Brydeinig fel enghraifft. Roedd yn dadlau y byddai integreiddio sefydliadau gwirfoddol yn ffurfiol i systemau statudol yn gwella llif gwybodaeth a gwydnwch.[107] Tynnodd sylw'r Pwyllgor hefyd at y Fframwaith i Gydlynu Gwirfoddolwyr mewn Ymateb i Argyfyngau (Cymru), sy'n gosod dull safonol ar gyfer integreiddio'r sector gwirfoddol yn ffurfiol i ymdrechion cynllunio, ymateb ac adfer ar gyfer argyfyngau. Nod y fframwaith hwn yw defnyddio strwythurau presennol i sicrhau cynrychiolaeth uniongyrchol o'r sector gwirfoddol ar fforymau cynllunio allweddol ac o fewn timau adfer sy'n benodol i ddigwyddiadau.[108]

**134.** Tynnodd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sylw at werth posibl creu cronfa ganolog o wirfoddolwyr yng Nghymru, gan nodi y gellid gwneud gwell defnydd o gapasiti gwirfoddolwyr. Awgrymodd y dylai Fforymau Lleol Cymru Gydnerth archwilio sut y gellid deall ac integreiddio adnoddau gwirfoddol i gynllunio a gweithredu yn lleol.[109]

---

[105] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 153

[106] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 45

[107] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraffau 134-136.

[108] Y Groes Goch Brydeinig, Fframwaith i Gydlynu Gwirfoddolwyr mewn Ymateb i Argyfyngau (Cymru), Gorffennaf 2022

[109] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2025, paragraff 128

## Cyfathrebu a negeswyr dibynadwy

**135.** Mae cyrff gwirfoddol mewn sefyllfa unigryw i gyrraedd grwpiau y mae'n anodd ymgysylltu â nhw a gweithredu fel negeswyr credadwy yn ystod argyfyngau. Mae eu rhwydweithiau sefydledig a'u dealltwriaeth ddiwylliannol yn galluogi cyfathrebu wedi ei deilwra nad yw sianeli statudol yn aml yn gallu ei gyflawni.

**136.** Yn ystod ein sesiynau tystiolaeth, clywodd y Pwyllgor fod camddealltwriaeth sylweddol ymhlith y cyhoedd ynghylch y ffordd y mae COVID-19 yn lledaenu, y dulliau trosglwyddo, a'r mesurau mwyaf effeithiol i amddiffyn rhag haint, ac mewn rhai achosion mae'n hynny'n parhau i fod yn wir. Roedd dryswch penodol gan dystion ynghylch a yw COVID-19 yn lledaenu drwy'r awyr fel aerosol yn unig, neu a all y feirws ledaenu fel defnynnau hefyd, drwy gysylltiad uniongyrchol â pherson heintiedig neu drwy arwynebau halogedig. Mae'r canllawiau iechyd y cyhoedd diweddaraf ar ddulliau trosglwyddo a dulliau amddiffyn effeithiol wedi'u cynnwys ym mharagraff 154 isod.

**137.** Pwysleisiodd sawl sefydliad gwirfoddol, gan gynnwys y Groes Goch Brydeinig, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys, Mantell Gwynedd, CGGC a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru werth sefydliadau gwirfoddol fel negeswyr dibynadwy wrth gyfathrebu'n gyhoeddus, gan nodi bod ganddynt lefelau uwch o ymddiriedaeth o gymharu ag asiantaethau statudol a bod ganddynt fynediad at grwpiau penodol, gan gynnwys cymunedau gwledig a lleiafrifoedd ethnig. Clywsom, yn ystod y pandemig, fod y sefydliadau hyn wedi gallu manteisio ar yr ymddiriedaeth hon i ledaenu negeseuon iechyd y cyhoedd yn effeithiol a chwalu gwybodaeth anghywir.[110]

**138.** Rhannodd Race Council Cymru enghraifft o arfer da yn ystod y pandemig pan sefydlodd hybiau amlddiwylliannol ar WhatsApp a gysylltodd tua 300 o sefydliadau ledled Cymru. Crëwyd "Fforwm Arweinwyr COVID-19" i rannu gwybodaeth swyddogol gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r GIG, a gafodd ei lledaenu wedyn drwy rwydweithiau cymunedol.[111] Yn yr un modd, clywsom am enghreifftiau lle mae Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol wedi sefydlu partneriaethau â'u bwrdd iechyd a'u hawdurdod lleol lle mae dealltwriaeth leol yn cael ei rhannu i lywio gweithgarwch cyfathrebu. Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai

[110] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraffau 57, 82-83, 89-91, 214
[111] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 171

rhwydweithiau fel hyn fod yn gyfrwng effeithiol ar gyfer cyfathrebu wedi'i deilwra mewn argyfyngau yn y dyfodol.

> *"Post COVID, in Powys, we've set up a joint communications and engagement group, which involves the CVC, the health board and the local authorities. The colleagues there meet regularly and make sure that we're not duplicating information, but using the best partner to share that information and actually combat some of those myths… asking communities what they want and what matters to them…That's involved us going to things like the young farmers groups, the agricultural markets, the Welsh language chat groups, a whole range of things, and actually that builds trust in itself. So, should another issue like a pandemic come up, I think we're very well placed to have that trusting relationship to help our statutory partners get those key messages out and dispel those myths."*[112]

**139.** Pwysleisiodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau yr angen i wneud defnydd gwell o rwydweithiau cyfathrebu anffurfiol a nodi pwy sydd â'r cysylltiadau i ledaenu gwybodaeth yn eang. Rhybuddiodd nad yw cyfathrebiadau ffurfiol bob amser yn cyrraedd y cynulleidfaoedd bwriadedig, gan nodi bod hon yn broblem benodol yng Nghymru oherwydd ei thirwedd gymharol wan o ran y cyfryngau.[113]

## Cyllid brys

**140.** Clywodd y Pwyllgor nad oes mecanwaith sefydlog i sianelu cyllid brys yn gyflym drwy bartneriaid gwirfoddol dibynadwy, a all arwain at oedi pan fydd argyfyngau'n digwydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y pryderon sylweddol a rennir gan y sefydliadau gwirfoddol y siaradom â nhw ynghylch y dirywiad yng ngwydnwch a chapasiti'r sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**141.** Clywsom fod y sector gwirfoddol ar hyn o bryd yn wynebu pwysau ariannol sylweddol o ganlyniad i orfod delio â nifer o heriau ar yr un pryd, gan gynnwys adfer ar ôl y pandemig, yr argyfwng costau byw, cynnydd mewn yswiriant gwladol a thirwedd ariannu heriol. Roedd ymdeimlad cryf nad yw'r sector mewn sefyllfa

[112] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 86
[113] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 215

mor gryf ag yr oedd cyn y pandemig ac felly y byddai'n llai parod i ymateb i argyfyngau yn y dyfodol.[114]

**142.** Tynnodd rhanddeiliaid sylw at fregusrwydd cyllido acíwt, gyda chau gwasanaethau arbenigol—megis eiriolaeth annibynnol i bobl ag anableddau dysgu—yn lleihau gallu'r sector i ddarparu cymorth wedi'i deilwra.[115]

**143.** Tynnodd y Groes Goch Brydeinig sylw at bryderon nad yw rhai comisiynwyr gwasanaethau'r sector gwirfoddol yn dilyn yn gyson ganllawiau Cod Ymarfer y Trydydd Sector[116] Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio sicrhau comisiynu teg a thryloyw. O ganlyniad, mae sefydliadau unigol yn aml yn ei chael hi'n anodd sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau a buddsoddi mewn seilwaith, gan olygu na fyddant yn ddigon parod i ymateb pan fydd eu hangen fwyaf.[117]

> *"Whilst we are often majority voluntary based, are not the cheap option or the free option. There is a requirement for there to be some infrastructure for each voluntary sector organisation—a minimal requirement of resources—but it does need to be there in order for what I call the spine of the organisation to function. And from that, we have a platform within our communities to deliver that good work and those messages… it is about valuing and resourcing the sector appropriately."*[118]

**144.** Nododd eraill, fel Race Council Cymru a Mantell Gwynedd, nad yw llawer o sefydliadau'r sector gwirfoddol yn derbyn unrhyw gyllid craidd, sy'n golygu nad oes ganddynt yr adnoddau i gefnogi gwaith gwydnwch neu argyfyngau sifil posibl i'r graddau y byddent yn hoffi.

> *"I do think that people need to recognise that groups like ours have no core funding. A lot of the work we do we have to do in a voluntary capacity because we have no core funding. We're all project funded, which is a great disadvantage. So, to secure the presence of people*

[114] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraffau 33, 39, 41, 76.
[115] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 105
[116] Llywodraeth Cymru, Cynllun y Trydydd Sector: cod ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector, Ebrill 2025
[117] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 40
[118] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 95

> *who are going to lead this work, it's important to fund them properly so that we're better able to be available in times of crisis."*[119]

**145.** Nododd CGGC fod llacio rheolau caffael yn ystod y pandemig wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru sianelu arian yn gyflym drwy gyrff dibynadwy fel CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol. Fodd bynnag, ers i'r rheolau hynny gael eu hadfer, nid oes mecanwaith clir—megis cytundeb neu fframwaith grant sefydlog—i alluogi dosbarthu arian yn gyflym mewn argyfyngau. Pwysleisiodd CGGC y dylai creu mecanwaith o'r fath fod yn flaenoriaeth allweddol er mwyn sicrhau y gellir defnyddio adnoddau'n gyflym pan fydd argyfyngau'n codi yn y dyfodol.

> *"I don't feel like we've still nailed the proper mechanism that allows the Welsh Government to use trusted bodies like us to disseminate funds that are needed in particular areas. So, responding to a flood, responding to a storm, or anything else that may arise, we often find that the will and the budget are there in those emergency scenarios, but there's still a block in terms of having that mechanism worked up, agreed, whether it's a grant agreement, a contract or a framework—whatever it is. I think we're missing that piece of a framework that might just be a contract for £1 a year that sits there, but when something happens, the mechanism is there, the assurances are in place, everything is ready, so that money can be put in that pot and then used to distribute against whatever the required need is."*[120]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**146.** Wrth ymateb i gwestiynau ynghylch integreiddio'r sector gwirfoddol i strwythurau argyfyngau sifil posibl diwygiedig Cymru, dywedodd y Prif Weinidog fod Cofrestr Risg Cymru wedi cael ei datblygu gyda Phartneriaeth Gwydnwch Cymru a Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol. Pwysleisiodd y Prif Weinidog hefyd y gwahoddwyd sefydliadau gwirfoddol i gyfarfodydd argyfyngau sifil posibl hefyd yn ystod Ymarfer Pegasus, ac mae Llywodraeth Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o roi mynediad i fwy o sefydliadau gwirfoddol at blatfform ResilienceDirect. Mae cyllid hefyd wedi ei

[119] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 213
[120] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 117

ddarparu i gryfhau platfform Gwirfoddoli Cymru, ond roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn y gellid gwneud mwy yn y maes hwn.[121]

**147.** Mynegodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru siom ynghylch y dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor gan sefydliadau'r sector gwirfoddol, a oedd yn teimlo nad oedd ganddynt y cyfle i gyfrannu eu dealltwriaeth at Gofrestr Risg Cymru. Gwnaethant gydnabod y gellid gwneud mwy i gynnwys y sector ac adeiladu ar y mewnbwn y maent eisoes wedi'i wneud.[122]

**148.** Cydnabu'r Prif Weinidog yr angen i wella'r gwaith o rannu data a chadarnhaodd bod grŵp gorchwyl a gorffen newydd wedi ei sefydlu i fynd i'r afael â hyn, sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth am bobl agored i niwed. Nododd y Prif Weinidog hefyd fod y canllawiau presennol yn caniatáu i gyrff statudol rannu data mewn sefyllfaoedd 'bywyd a marwolaeth', a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ymatebwyr i godi ymwybyddiaeth o'r darpariaethau hyn. Bydd y grŵp hefyd yn archwilio dulliau sy'n seiliedig ar ganiatâd, gan ddefnyddio enghreifftiau fel gwaith ymgysylltu rhagweithiol y Grid Cenedlaethol â chwsmeriaid agored i niwed.[123]

**149.** O ran mynediad i gyllid brys ar gyfer y sector, nododd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun cymorth ariannol brys drwy awdurdodau lleol, sydd wedi cael ei ddefnyddio i sianelu cyllid i Gynghorau Gwirfoddol Sirol, ochr yn ochr â mecanweithiau fel y Gronfa Cymorth Dewisol. Cadarnhaodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn agored i archwilio opsiynau i ehangu'r trefniadau hyn i gynnwys cymorth uniongyrchol i sefydliadau gwirfoddol ar lawr gwlad.[124] Tynnodd swyddogion sylw at y cynlluniau ariannu brys a sefydlwyd yn ystod dyddiau cynnar pandemig COVID-19 i ddosbarthu arian i sefydliadau gwirfoddol drwy CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Cymunedol.[125]

**150.** Cydnabu'r Prif Weinidog nad y llywodraeth yw'r cyfrwng gorau bob amser ar gyfer cyrraedd grwpiau penodol, a chyfeiriodd at fudiad Muslim Doctors Cymru fel enghraifft o ymgysylltu effeithiol yn ystod y pandemig. Pwysleisiodd y Prif Weinidog bwysigrwydd lleisiau dibynadwy o ran gwrthweithio gwybodaeth

[121] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 195-200
[122] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 196
[123] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 185-190
[124] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 205
[125] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 206

anghywir a nododd fod Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Groes Goch Brydeinig wedi cael eu cynrychioli ar y grŵp briffio dyddiol drwy gydol y pandemig.[126]

## Barn y Pwyllgor

**151.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cyfraniad amhrisiadwy y mae'r sector gwirfoddol yn ei wneud wrth gryfhau gwydnwch cenedlaethol a pharatoadau ar gyfer argyfyngau yng Nghymru. Yn ystod argyfyngau, gallant ddefnyddio ystod eang o gymorth i gymunedau yr effeithir arnynt, sy'n gwella'r gwaith darparu cymorth ac yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gall y sector statudol ei ddarparu. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyngor ymarferol ac ariannol, cymorth cymdeithasol, seicolegol a bugeiliol, cymorth arian parod, dosbarthu bwyd a meddyginiaeth, a lledaenu gwybodaeth wedi'i theilwra mewn fformatau hygyrch.

**152.** Mae'r sector yn gweithredu fel cyswllt dibynadwy rhwng gwasanaethau statudol a'r cymunedau lleol y maent wedi'u hymgorffori ynddynt, gan eu gwneud yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth a dealltwriaeth leol a all helpu i lywio ac addasu'r ymateb mewn amser real. Maent hefyd yn darparu'r seilwaith cyffredinol i gydgysylltu gwirfoddolwyr sy'n dymuno cefnogi'r gwaith darparu cymorth yn ystod cyfnodau o argyfwng yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r sefydliadau hyn yn asedau amhrisiadwy i'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am waith ymateb i argyfyngau yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod eu harbenigedd unigryw a'u rhwydweithiau sefydledig gyda'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli yn cael eu defnyddio i'r graddau mwyaf posibl.

**153.** Mewn ymateb i'r dystiolaeth a ddaeth i law a oedd yn tynnu sylw at ba mor gyffredin yw camddealltwriaeth ynghylch trosglwyddo COVID-19 ac effeithiolrwydd mesurau amddiffyn, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod o'r pwys mwyaf bod gan asiantaethau iechyd y cyhoedd ddealltwriaeth drylwyr o'r ffyrdd y mae gwahanol fathau o afiechydon yn lledaenu a'u bod yn gallu chwalu gwybodaeth anghywir cyn gynted â phosibl mewn unrhyw bandemig yn y dyfodol. Hoffem hefyd ailadrodd bod canllawiau iechyd y cyhoedd yn nodi'n glir y gall COVID-19 ledaenu mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:

- drwy'r awyr fel aerosol a all aros yn yr awyr am amser hir;
- drwy'r awyr gan ddefnynnau a all ledaenu gerllaw ac ar arwynebau;

[126] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 208-9

- drwy gysylltiad uniongyrchol â pherson heintiedig;
- drwy gysylltiad uniongyrchol ag arwyneb halogedig.

**154.** Yr ymddygiadau amddiffynnol canlynol yw'r mesurau mwyaf effeithiol y gall y cyhoedd eu cymryd i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

- cael eich brechu;
- cynnal hylendid dwylo da;
- aros gartref a chyfyngu ar eich cyswllt ag eraill os ydych chi'n sâl;
- gwisgo gorchudd wyneb mewn mannau dan do neu fannau gaeedig gorlawn;
- cwrdd ag eraill yn yr awyr agored;
- pan fyddwch dan do, cynyddu awyru a gadael i awyr iach i mewn lle bo modd.[127,]

**155.** Roedd y Pwyllgor yn falch bod Ymchwiliad COVID-19 y DU wedi cyfeirio'n benodol at y strwythurau unigryw sy'n sail i'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Roedd y strwythurau hyn wedi'u hen sefydlu cyn y pandemig ac fe helpodd i sicrhau bod y sector gwirfoddol yn gallu cyfrannu at yr ymateb o'r cychwyn cyntaf. Roedd bodolaeth mecanweithiau sefydledig ar gyfer cydweithio rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol yn gryfder yn yr ymateb i'r pandemig yng Nghymru ac yn un na ddylid ei gymryd yn ganiataol.

**156.** Wedi dweud hynny, mae lle sylweddol i wella o hyd. Roeddem yn siomedig o glywed nad oedd sefydliadau fel Race Council Cymru wedi cael y cyfle i fod yn rhan o'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, ymarferion parodrwydd, nac mewn strwythurau cynllunio ehangach ar gyfer argyfyngau. Mae hyn yn arbennig o bryderus o ystyried y niferoedd anghymesur o bobl Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a fu farw yn ystod y pandemig.[128] Rhaid gwneud mwy i sicrhau bod sefydliadau sydd ag arbenigedd perthnasol yn gallu defnyddio eu dealltwriaeth werthfawr i wella ein gwydnwch.

[127] Llywodraeth Cymru, Cyngor iechyd y cyhoedd ar gyfer y cyhoedd: amddiffyn eich hun ag eraill rhag y coronafeirws;
Sefydliad Iechyd y Byd, Cyngor i'r cyhoedd: Clefyd coronafeirws (COVID-19) (Saesneg yn unig)
[128] Llywodraeth y DU, Ethnigrwydd a COVID-19 (Saesneg yn unig)

**157.** Clywsom dystiolaeth fod problemau ynghylch rhannu data yn lleihau gallu'r sector i ymateb i argyfyngau. Er bod rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelu data a llywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), ni ddylai'r rhain rwystro gallu sefydliadau gwirfoddol ag enw da i gefnogi'r rhai mewn angen, yn enwedig yn ystod sefyllfaoedd o argyfyngau. Mae enghraifft y gwasanaeth dosbarthu presgripsiynau yn y pandemig a roddwyd gan y Groes Goch Brydeinig yn dangos beth sy'n bosibl pan fydd pawb – gwirfoddol a statudol – yn barod i weithio gyda'i gilydd i ddatrys yr heriau hyn. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r enghreifftiau hyn fod y norm nid yr eithriad. Felly, credwn y dylai Llywodraeth Cymru greu darpariaethau cyfreithiol ar gyfer argyfyngau sy'n caniatáu llacio rheoliadau diogelu data yn ystod sefyllfaoedd brys er mwyn caniatáu i gymorth gyrraedd y rhai mewn angen cyn gynted â phosibl.

**158.** Tynnodd rhanddeiliaid sylw at berthnasedd sawl argymhelliad a wnaed yn adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Bumed Senedd: Effaith COVID-19 ar y Sector Gwirfoddol, sy'n awgrymu bod y materion hyn wedi cael eu codi gyda Llywodraeth Cymru ers peth amser ond eu bod yn parhau heb eu datrys.[129] Mae'n amlwg bod potensial enfawr i wneud defnydd gwell o ddealltwriaeth ac arbenigedd y sector i gryfhau gwydnwch a llywio cynllunio at argyfyngau.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith safonol ar gyfer cydweithredu rhwng ymatebwyr Categori 1 a sefydliadau gwirfoddol, i sicrhau bod y sefydliadau hyn wedi'u hintegreiddio'n ffurfiol mewn trefniadau ymateb i argyfyngau.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru greu cofrestr Cymru gyfan o alluoedd y sector gwirfoddol, gan gynnwys llwybrau gweithredu clir i alluogi symud a chydgysylltu cyflym yn ystod argyfyngau.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system sy'n hwyluso rhannu data amserol, cyfreithlon rhwng asiantaethau statudol a phartneriaid gwirfoddol yn ystod argyfyngau, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion diogelu data wrth alluogi sefydliadau gwirfoddol i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol. Dylai system o'r fath wneud darpariaethau cyfreithiol sy'n caniatáu llacio rheoliadau diogelu data yn ystod sefyllfaoedd o argyfwng.

[129] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol, Chwefror 2021

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnal seilwaith presennol y trydydd sector, ac edrych i weld sut y gellir gwella'r strwythurau hyn a'u gwneud hyd yn oed yn fwy cadarn er mwyn sicrhau bod y sector gwirfoddol wedi'i wreiddio o'r cychwyn cyntaf mewn cynllunio ac ymarferion gwydnwch.

**159.** Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a ddaeth i law gan sefydliadau gwirfoddol fod y sector yn wynebu heriau difrifol o ran cyllid ac adnoddau, sy'n cael effaith negyddol ar eu gwydnwch eu hunain. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus o glywed tystiolaeth sawl sefydliad yn y sector gwirfoddol a oedd yn teimlo y byddent yn llai abl i ymateb i sefyllfa o argyfwng ar sail system gyfan heddiw nag yr oeddent yn 2020. Dangosodd pandemig COVID-19 y rôl hanfodol y mae'r sector gwirfoddol yn ei chwarae wrth wella gwaith gwasanaethau statudol, amddiffyn pobl agored i niwed, a lledaenu negeseuon i'r cymunedau y maent wedi'u hymgorffori ynddynt. Clywsom dystiolaeth hefyd fod y sefydliadau hyn wedi profi cynnydd digynsail yn y galw am eu gwasanaethau yn ystod y pandemig, sy'n tynnu sylw at y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth gefnogi defnyddwyr eu gwasanaethau mewn cyfnodau o argyfwng. Mae'n hanfodol eu bod mewn sefyllfa gref i ymateb pan fydd galw anochel arnynt eto.

**160.** Roedd ymdeimlad cryf bod gofyn i'r sector gyfrannu at ymdrechion gwydnwch Cymru ond nad yw bob amser yn derbyn y gefnogaeth ariannol briodol i wneud hynny. Rydym yn cydnabod fel Pwyllgor ein bod wedi gwneud argymhellion yn galw am fwy o integreiddio a defnyddio'r sector gwirfoddol wrth gynllunio gwydnwch a strwythurau ymateb i argyfyngau yng Nghymru, ond rydym yn ymwybodol nad yw gwaith y sector gwirfoddol yn dod am ddim.

**161.** Rhaid i integreiddio gwell o'r sector gwirfoddol mewn systemau parodrwydd ac ymateb i argyfyngau gael ei ategu gan fodel ariannu cynaliadwy, hirdymor sy'n gwella gwydnwch y sector ac yn eu galluogi i gynnal yr adnoddau a'r seilwaith angenrheidiol i'w defnyddio mewn achos o argyfyngau yn y dyfodol. Yn ogystal, dylai ymarferion parodrwydd yn y dyfodol archwilio'r effaith debygol ar sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau allweddol i gymunedau yr effeithir arnynt a sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiol ar waith i ddiogelu eu gwydnwch a'u parhad busnes eu hunain.

**162.** Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor yn cytuno bod angen fframwaith sefydlog sy'n darparu mecanwaith tryloyw a chlir ar gyfer dosbarthu cyllid yn gyflym i sefydliadau gwirfoddol sy'n ymwneud â chymorth mewn argyfyngau.

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith sefydlog cyllid mewn argyfwng gyda phartneriaid gwirfoddol dibynadwy er mwyn galluogi symud adnoddau'n gyflym yn ystod argyfyngau.

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol a sefydliadau comisiynu i hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o fecanweithiau ariannu hirdymor a fydd yn cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith, gwella gwydnwch y sector, a gwella eu gallu i ymdopi â'r cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau yn ystod argyfyngau.

# 5. Anghydraddoldebau cymdeithasol

**163.** Mae tystiolaeth llethol nad oedd effaith pandemig COVID-19 i'w theimlo'n hafal ar draws ein cymdeithas. Roedd oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabledd yn ffactorau allweddol a oedd yn pennu tebygolrwydd person o salwch difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i ddal COVID-19. Roedd ffactorau economaidd-gymdeithasol hefyd yn ffactor allweddol a achosodd ganlyniadau gwaeth yn ystod y pandemig. Roedd cyfraddau marwolaethau ymhlith pobl sy'n byw mewn tlodi yn llawer uwch na'u cymheiriaid mwy cyfoethog. Roedd y rhai oedd yn ennill y cyflog isaf yng Nghymru ddeg gwaith yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau a oedd wedi 'cau' na'r rhai oedd yn ennill y cyflog uchaf a thyfodd y bwlch cyrhaeddiad rhwng myfyrwyr difreintiedig a'u cyd-ddisgyblion yn sylweddol yn ystod blynyddoedd y pandemig.[130]

**164.** Dywedodd Patrick Vallance, Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU yn ystod pandemig COVID-19, wrth Ymchwiliad COVID-19 y DU:

> *"Dyma wirionedd ofnadwy, ofnadwy, ac mae'n rhywbeth y mae angen inni i gyd fyfyrio arno, sef bod pob pandemig yn bwydo oddi ar anghydraddoldeb ac yn ysgogi anghydraddoldeb. … mae honno'n drasiedi y mae angen ei deall."*[131]

**165.** Canfu'r un ymchwiliad fod dull y DU o asesu risg cyn y pandemig wedi parhau â'r "broblem o beidio â rhoi cyfrif digonol am y risg i bobl sy'n agored i niwed". Roedd canllawiau i'r rhai sy'n ymwneud â pharatoadau a gwydnwch ynghylch sut y dylid lliniaru risgiau i grwpiau agored i niwed ac mewn perygl "yn rhy amwys i fod yn ddefnyddiol".[132]

**166.** Nododd Ymchwiliad COVID-19 y DU fod y methiant i nodi a chynllunio'n iawn ar gyfer risgiau a gwendidau hirdymor a achosir gan anghydraddoldebau cymdeithasol yn ddiffyg sylfaenol yn null y DU o asesu risg.

**167.** Mae'r beirniadaethau hyn yr un mor berthnasol i Gymru. Cyn y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru yn dibynnu'n llwyr ar asesiadau risg ar lefel y DU nad

---

[130] Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Amlygu'r materion: Anghydraddoldeb a'r Pandemig, Awst 2020.
[131] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraff 3.55.
[132] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraff 3.57-3.58

oeddent yn darparu asesiad o sut y gallai risgiau argyfwng sifil a wynebir gan y DU effeithio'n benodol ar boblogaeth Cymru. Felly, roedd yr un nam yn llifo drwy systemau argyfyngau sifil posibl Cymru "a gafodd effaith sylweddol ar barodrwydd ar gyfer argyfyngau sifil system gyfan fel pandemigau a'u gwydnwch."[133].

**168.** Galwodd Ymchwiliad COVID-19 y DU am ddull newydd o asesu risg sy'n cynnal asesiad o effaith pob risg ar bobl agored i niwed ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal ei hasesiad risg ei hun sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau a'r nodweddion sy'n benodol i Gymru.

**169.** Yn yr un modd, galwodd Pwyllgor Diben Arbennig Cymru am adolygiad i sut y gellid ymgorffori'n well anghydraddoldebau cymdeithasol yng nghyd-destun Cymru yn y prosesau a'r strwythurau parodrwydd a chadernid.[134]

## Effeithiau anghymesur ar gymunedau agored i niwed a phwysigrwydd cyd-gynhyrchu

**170.** Cyfeiriodd rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth i'n Pwyllgor at effaith anghymesur y pandemig ar gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, aelwydydd aml-feddiannaeth, gweithwyr â chyflog isel neu sy'n ddibynnol ar fisa, a phoblogaethau gwledig neu ynysig. Pwysleisiodd sefydliadau gwirfoddol fod gwydnwch yn edrych yn wahanol ar gyfer gwahanol gymunedau ac y gallai rhai fod angen cymorth ychwanegol. Galwodd y Groes Goch Brydeinig am waith mapio deallus o'r anghenion hyn a mecanweithiau i ddarparu cymorth wedi'i deilwra.[135]

**171.** Clywsom lawer o enghreifftiau o sut yr effeithiodd y pandemig ar gymunedau yn wahanol. Dywedodd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru wrth y Pwyllgor nad ystyriwyd profiadau bywyd amrywiol yn ddigonol yn yr ymateb cychwynnol ac argymhellodd ymgorffori arferion cyd-gynhyrchu mewn cynllunio ar gyfer y dyfodol.[136] Adleisiodd Race Council Cymru hyn, gan bwysleisio

[133] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraff 3.17-3.18.
[134] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru, Adroddiad ar y bylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig COVID-19 y dylid eu harchwilio ymhellach: Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, Mawrth 2025, tudalen 21.
[135] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 103
[136] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 206

pwysigrwydd cynnwys cymunedau o'r cychwyn cyntaf yn hytrach nag fel ymarfer ticio blychau.[137]

> *"I think that there are lessons to be learned from the challenges that people went through. Not everybody lives in the same way and we need to take into account the style of living that some of our communities have, which is where we draw a lot of support from the elderly. Grandparents help to raise the smaller and the younger children. It's still very close-knit families, where it would be difficult to separate people under those circumstances."*[138]

**172.** Nododd sawl tyst fod cyngor a chanllawiau swyddogol a gyhoeddwyd yn gynnar yn y pandemig wedi methu â rhoi ystyriaeth i anghenion a phrofiadau penodol gwahanol grwpiau. Tynnodd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru sylw at ddiffyg glynu wrth fodel cymdeithasol anabledd gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n ffurfiol i fabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd ers 2002.

> *"This is keenly felt in healthcare, where disabled people are routinely 'locked out' of the services they need due to a 'one size fits all' communication method… leaving patients unable to successfully navigate a system that fails to make reasonable adjustments for them."*[139]

**173.** Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau fod rhywfaint o gyngor – fel peidio â gweithio neu gymysgu â theulu – yn anymarferol i lawer o bobl a oedd yn arwain at wneud cydymffurfio yn anymarferol ac yn tanseilio hygrededd.[140] Roedd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn cefnogi'r farn hon, ac yn pwysleisio pwysigrwydd cyd-ddylunio negeseuon gyda'r cymunedau y bwriedir iddynt. Galwodd am ganllawiau yn y dyfodol i adlewyrchu profiad bywyd yn well.[141]

---

[137] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 211
[138] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 202
[139] Triniaeth Deg i Fenywod Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Rhagfyr 2025
[140] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 215
[141] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 216

> *"I think one of the issues… is, actually, health policy is largely socially blind. It doesn't take into account, to a large degree, the different socioeconomic characteristics of different people. Therefore, you have a one-size-fits-all policy, which means that, actually, people who have got more challenging socioeconomic conditions are implicitly disadvantaged."*[142]

**174.** Trafododd rhai sefydliadau gwirfoddol eu hymdrechion i ddylanwadu ar ddiwygiadau i ganllawiau a chyngor i ystyried y profiadau hyn yn well, ond yn aml daeth y rhain yn hwyr.

> *"My experience during COVID, when I was working, at that time, in domestic abuse, often there were having to be revised and adapted responses of guidance that was coming out from Government, because those initial considerations of people's different lived experiences and perspectives weren't taken into consideration in the initial response. So, if we're planning for the next one, we need to have those structures and that asset mapping of what's out there, but also that connectivity down into those different lived-experience perspectives, so that that information flows straight into that immediate emergency planning, at the beginning stage, rather than as a retrospective process, which it did feel like, at times, during the pandemic."*[143]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**175.** Pwysleisiodd y Prif Weinidog fod cydraddoldeb yn gwbl sylfaenol i'w credoau craidd fel llywodraeth ac yn ganolog i ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin ag argyfyngau sifil posibl, a nododd fod asesiadau effaith cydraddoldeb wedi'u hymgorffori yn eu diweddariadau sefyllfa a'r cysyniad o weithrediadau, wedi'u cefnogi gan gell cydraddoldeb o fewn strwythurau ymateb.[144]

**176.** Nododd y Prif Weinidog fod grwpiau agored i niwed yn amrywio yn dibynnu ar yr argyfwng, a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Fforymau Lleol Cymru

[142] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 204
[143] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 206
[144] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 151-2

Gydnerth i nodi'r grwpiau hyn a darparu data i gynorthwyo i ddatblygu cofrestrau risg cymunedol. Nododd y Prif Weinidog hefyd raglen waith barhaus o dan Bartneriaeth Gwydnwch Cymru "i rannu arferion gorau mewn perthynas ag asesu effeithiau risgiau ar bobl agored i niwed a phobl sydd ag anghenion penodol". Nod y rhaglen hon yw "integreiddio'n gyson yr asesiad o effaith y risgiau ar bobl agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion penodol mewn methodolegau risg lleol a chenedlaethol."[145].

**177.** Yn ail ddatganiad cynnydd chwe misol Llywodraeth Cymru mewn ymateb i Ymchwiliad COVID-19 y DU, dywedodd y Prif Weinidog, drwy drefniadau partneriaeth Llywodraeth Cymru, eu bod yn "edrych ar ffyrdd o ddefnyddio data a gwybodaeth i helpu partneriaid i nodi grwpiau agored i niwed a grwpiau mewn perygl er mwyn sicrhau y gellir blaenoriaethu cymorth mwy penodol ac wedi'i deilwra yn ystod unrhyw ddigwyddiad i'r bobl hynny a allai fod ei angen fwyaf."[146].

## Barn y Pwyllgor

**178.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r safbwyntiau a rennir gan sefydliadau'r sector gwirfoddol nad oedd canllawiau swyddogol yn ystod pandemig COVID-19 yn aml yn ystyried yr ystod lawn o amgylchiadau personol, nodweddion gwarchodedig, a ffactorau economaidd-gymdeithasol.

**179.** Fel Aelodau, gwnaethom fyfyrio ar ein profiadau ein hunain yn ystod y pandemig a'r sylwadau a ddaeth i law gan ystod eang o sefydliadau i ofyn am ddiwygiadau i ganllawiau a chyngor, er mwyn ystyried anghenion a phrofiadau gwahanol grwpiau yn well. Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl, pobl sy'n profi cam-drin domestig, pobl sy'n byw mewn tlodi a chymunedau lleiafrifoedd ethnig. Er ein bod wedi gallu nodi enghreifftiau lle gweithredwyd diwygiadau o'r fath i ystyried yr anghenion amrywiol hyn yn well, fel Pwyllgor credwn fod angen gwneud hyn ar sail llawer mwy rhagweithiol.

**180.** Yn ystod pandemig COVID-19, ni roddodd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ystyriaeth ddigonol i anghenion cyfathrebu amrywiol pobl anabl â gwahanol namau, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, a phobl sydd wedi colli clyw a golwg. Yn aml, roedd canllawiau swyddogol yn methu ag adlewyrchu anghenion cyfathrebu pobl anabl ac nid oeddent yn glynu wrth y model cymdeithasol o anabledd, gan adael llawer wedi'u "cloi allan" o wybodaeth

[145] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ail ddiweddariad chwe mis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, Ionawr 2026
[146] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ail ddiweddariad chwe mis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, Ionawr 2026

hanfodol yr oedd ei hangen arnynt i gadw eu hunain yn ddiogel.[147] Er enghraifft, anfonwyd gwybodaeth hanfodol at bobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol fel llythyrau ynghylch gwarched ac apwyntiadau brechu mewn fformatau print safonol nad oeddent yn gallu eu darllen ar eu pen eu hunain.[148] Tynnwyd sylw at ddiffyg darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain gyson ar sianeli darlledu a chyfryngau cymdeithasol gan bobl fyddar a phobl â cholled clyw fel rhwystr i gael mynediad at wybodaeth hanfodol drwy gydol y pandemig. Yn ogystal, gwnaeth masgiau wyneb gorfodol, a oedd yn cuddio darllen gwefusau a chiwiau wyneb, a'r symudiad eang i apwyntiadau o bell waethygu'r rhwystrau cyfathrebu ymhellach, gan ei gwneud hi'n anoddach i lawer o unigolion byddar a thrwm eu clyw gael mynediad at wasanaethau a chymryd rhan lawn mewn rhyngweithiadau o ddydd i ddydd.[149]

**181.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod angen i strategaethau cyfathrebu yn y dyfodol gynnwys sefydliadau cymdeithas sifil sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn well fel bod y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill yn gallu elwa o'u rhwydweithiau a'u harbenigedd sefydledig. Dylid sefydlu mecanweithiau ffurfiol i hwyluso ymgysylltu a chydgynhyrchu cyson gyda grwpiau a nodwyd fel rhai sy'n fwy agored i argyfyngau penodol fel bod ein systemau gwydnwch wedi'u paratoi'n well yn y dyfodol. Mae'r ymgysylltiad hwn yn arbennig o berthnasol ar gyfer cynllunio cyfathrebu er mwyn sicrhau bod negeseuon yn adlewyrchu profiad bywyd a realiti cymunedol.

**182.** Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru yn archwilio mesurau i gryfhau eu dealltwriaeth a'u proffilio o risgiau gan eu bod yn ymwneud â phobl agored i niwed. Mae dealltwriaeth drylwyr a chadarn o effeithiau tebygol gwahanol senarios o argyfwng ar bobl agored i niwed a'r mathau o ymyriadau sy'n angenrheidiol i liniaru'r risgiau hynny yn hanfodol. Yn ogystal â phroffilio risg i ystyried anghenion pobl agored i niwed y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w cynnal, dylai ymarferion parodrwydd amlasiantaeth yn y dyfodol hefyd gynnwys profion straen gorfodol o effeithiau tebygol gwahanol argyfyngau ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig a phobl sy'n byw mewn anfantais economaidd-gymdeithasol a gwerthusiad o effeithiolrwydd gwahanol fesurau

[147] Llywodraeth Cymru, Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19, Gorffennaf 2021
[148] RNIB Cymru, Pobl ddall ac â golwg rhannol yn cael eu "hanghofio" wrth gyflwyno brechlyn COVID yng Nghymru, Mawrth 2021
[149] RNID, RNID and the Disability Charities Consortium are taking part in the UK Covid Inquiry (Saesneg yn unig), Medi 2024

lliniaru yn erbyn yr effeithiau hyn. Ni all Cymru fforddio i gymunedau penodol neu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl deimlo effaith argyfyngau yn y dyfodol fwyaf.

**183.** Ers i'n Pwyllgor ddechrau ar ein gwaith yn archwilio ymateb Llywodraeth Cymru i Fodiwl 1 o Ymchwiliad COVID-19 y DU, canfu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, rheoleiddiwr cydraddoldeb statudol Prydain Fawr, fod Llywodraeth Cymru wedi methu'n gyson â chydymffurfio â chyfraith cydraddoldeb. Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ddatganiad, gan ddweud eu bod wedi nodi "nifer o fethiannau i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010."[150].

**184.** Ymhlith y sail dros y penderfyniad hwn, nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod Llywodraeth Cymru wedi "methu â chynnal a chyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer llawer o'i pholisïau, a oedd yn debygol o gael effaith sylweddol ar ei gallu i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus". Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi wedi cymryd camau gorfodi ffurfiol ar ffurf cytundeb cyfreithiol Adran 23 i wella cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â chyfraith cydraddoldeb. Disgwylir i delerau'r cytundeb a'r cynllun gweithredu cysylltiedig ddod i ben ar 21 Tachwedd 2027.[151]

**185.** Roeddem yn falch o glywed Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei hymrwymiad i gydraddoldeb a'r camau y mae wedi'u hamlinellu i sicrhau bod system argyfyngau sifil posibl Cymru yn ystyried yn well yr effaith anghyfartal y gall argyfyngau ei chael ar grwpiau nodweddion gwarchodedig a phobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r angen am gamau gorfodi gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn amlygu bod dull hanesyddol Llywodraeth Cymru o wella cydraddoldeb wedi bod yn annigonol. Mae'r anghydraddoldebau amlwg a ddatgelwyd yn ystod y pandemig yn dangos bod angen gwneud llawer mwy i ddeall yr hyn sy'n achosi anghydraddoldeb a rhoi mesurau lliniaru ataliol cadarn ar waith. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio bod ymyrraeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn drobwynt gwirioneddol – un sy'n arwain at ddull mwy systematig, wedi'i arwain gan dystiolaeth a rhagweithiol o ymgorffori cydraddoldeb ar draws trefniadau parodrwydd a gwydnwch Cymru.

---

[150] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, "Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â chyfraith cydraddoldeb, meddai'r rheoleiddiwr", Tachwedd 2025
[151] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Ein llythyr at Lywodraeth Cymru: Cytundeb Adran 23, Tachwedd 2025

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn integreiddio sefydliadau a rhwydweithiau cymunedol sy'n cynrychioli'r ystod o nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ffurfiol i strategaethau cyfathrebu brys, gan sicrhau bod negeseuon a dulliau lledaenu yn cael eu cyd-gynllunio ac yn adlewyrchu profiad byw ac anghenion cyfathrebu penodol pobl anabl sydd â namau gwahanol.

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanweithiau ffurfiol ar gyfer ymgysylltiad cyson â sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau ethnig leiafrifol, gwledig a chymunedau ymylol eraill, fel paneli cynghori sefydlog neu gofrestr o bartneriaid cymunedol ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod eu dealltwriaeth yn llywio gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf.

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol i ymgorffori asesiadau bregusrwydd systematig yng Nghofrestr Risg Cenedlaethol Cymru, cofrestrau risg cymunedol, a chynllunio argyfyngau sifil posibl, gan sicrhau bod yr asesiadau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth, yn fesuradwy ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu risgiau sy'n dod i'r amlwg a'u heffeithiau posibl ar gymunedau sy'n agored i niwed.

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ymarferion parodrwydd amlasiantaeth yn y dyfodol yn cynnwys asesiad gorfodol o effaith debygol gwahanol argyfyngau ar grwpiau nodweddion gwarchodedig a phobl sy'n byw mewn anfantais gymdeithasol-economaidd ac effeithiolrwydd ymyriadau i liniaru'r effeithiau hyn.

# 6. Data

**186.** Mae adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU yn pwysleisio bod parodrwydd effeithiol ar gyfer argyfyngau yn dibynnu ar fynediad at ddata dibynadwy, o ansawdd uchel a diweddar. Mae'r adroddiad yn pwysleisio, o gamau cynharaf pandemig neu argyfwng sifil mawr arall, fod angen gwybodaeth ddibynadwy ar wneuthurwyr penderfyniadau am alluoedd systemau, effeithiau posibl ar grwpiau agored i niwed, risgiau sy'n dod i'r amlwg a risgiau cydamserol, a natur y bygythiad ei hun.

**187.** Mae'r ymchwiliad yn tynnu sylw at yr angen am systemau casglu data cryf – a all ddarparu data gweinyddol ar bethau fel nifer y gwelyau ysbyty sydd ar gael) ac ymchwil wyddonol (megis effeithiolrwydd gwrthfesurau) – i fod ar waith cyn i argyfwng ddechrau. Heb fynediad at ddata o'r fath mae'r rhai sy'n rheoli argyfwng yn wynebu ansicrwydd sylweddol ac yn cael eu gadael i bob pwrpas fel petaent yn "gyrru yn y tywyllwch".[152] Mae'n argymell sefydlu "mecanweithiau ar gyfer casglu, dadansoddi, rhannu'n ddiogel a defnyddio data dibynadwy yn amserol er mwyn llywio ymatebion brys, cyn pandemigau yn y dyfodol."[153].

**188.** Galwodd yr Ymchwiliad hefyd am well cydweithrediad rhwng llywodraethau'r DU a'r llywodraethau datganoledig, yn enwedig o ran rhannu data.

> *"Dylai fod cydweithredu rhwng llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig ar bob lefel. Yr amddiffyniad gorau yn erbyn lledaeniad pathogenau oedd ac mae'n parhau i fod yn fecanweithiau gwyliadwriaeth a chanfod cenedlaethol cryf…a chydweithio effeithiol rhwng y gwahanol lefelau o gyfrifoldeb*
>
> *Yn y DU, mae gwyliadwriaeth yn cynnwys casglu, coladu, dadansoddi a dehongli data yn barhaus, yn systematig, gan ddosbarthu gwybodaeth i'r rhai sydd ei hangen."*[154]

[152] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraffau 4.68-71
[153] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, tudalen 101
[154] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, paragraffau 2.15-16

**189.** Mae Pwyllgor Diben Arbennig Cymru hefyd wedi nodi'r "angen i fynd i'r afael â bylchau yn y modd mae data a phrofiad yn cael eu rhannu a'u cyfathrebu ar draws sefydliadau a strwythurau cadernid, yng Nghymru a ledled y DU" fel mater allweddol.

## Argaeledd a defnydd data

**190.** Mewn ymateb i Ymchwiliad COVID-19 y DU, nododd Llywodraeth Cymru yr angen i ddatblygu Set Ddata Gofal Brys newydd i Gymru[155] a disodli'r platfform 'TARIAN' gyda system rheoli diogelu iechyd newydd sy'n gallu "rheoli digwyddiadau mawr a gwaith olrhain cysylltiadau torfol, yn ogystal â gwella prosesau rhannu data a gwybodaeth."[156]

**191.** Pan ofynnwyd am hyn, dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth y Pwyllgor, er ei fod yn effeithiol ar gyfer gweithgaredd busnes fel arfer, nad oedd TARIAN wedi'i gynllunio i ymdopi â'r raddfa a brofwyd yn ystod y pandemig, gan dynnu sylw at yr angen am system newydd sy'n gallu rheoli capasiti ymchwydd sylweddol a chefnogi mynediad amlasiantaeth. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod gwaith darganfod wedi digwydd gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, Data Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod y system yn diwallu anghenion ar draws y sectorau.[157]

**192.** Cwestiynodd y Pwyllgor pam nad yw'r system newydd yn dal i weithredu, er gwaethaf yr angen clir am system newydd a nododd Ymchwiliad COVID-19 y DU. Mewn ymateb, eglurodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y broses gaffael wedi cymryd cryn dipyn o amser oherwydd maint y buddsoddiad sydd ei angen, yr angen i ymgorffori adborth helaeth gan ddefnyddwyr, a'r gofyniad am drefniadau llywodraethu cadarn i roi sicrwydd o werth am arian.[158]

**193.** Roedd y Groes Goch Brydeinig a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn feirniadol o'r porth ResilienceDirect, sef gwasanaeth ledled y DU a ddarperir gan Swyddfa'r Cabinet, gan nodi problemau gyda defnyddioldeb a hygyrchedd.[159]

---

[155] Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio Set Ddata Gofal Brys Cymru fel "y safon genedlaethol newydd ar gyfer casglu data gofal brys yng Nghymru i wella cynllunio ar gyfer gofal brys, monitro perfformiad, a chanlyniadau cleifion ar draws GIG Cymru."

[156] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad chwe mis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU, Gorffennaf 2025

[157] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 12 Tachwedd 2025, paragraffau 61-5

[158] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 12 Tachwedd 2025, paragraffau 65

[159] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraffau 66, 70

## Mynediad cynnar at gyngor gwyddonol

**194.** Pwysleisiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru bwysigrwydd mynediad cynnar at fforymau tystiolaeth a gwneud penderfyniadau arbenigol, fel Grŵp Cynghori Gwyddonol ar gyfer Argyfyngau (SAGE) Llywodraeth y DU. Gwnaethant bwysleisio y dylai Cymru fod 'wrth y bwrdd' o'r cychwyn cyntaf—yn gwbl wybodus am ddatblygiadau wrth iddynt ddigwydd ac yn cymryd rhan weithredol mewn cyd-ddylunio canllawiau mewn amser real, yn hytrach nag ymateb yn ddiweddarach.

**195.** Gwnaethant hefyd nodi amharodrwydd mewn rhai sectorau i rannu data ar draws ffiniau sefydliadol a thynnu sylw at y ffaith bod platfform y DU ar gyfer data genomig a sefydlwyd yn ystod y pandemig wedi diflannu ers hynny.[160]

## Bylchau mewn data

**196.** Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod bod ganddynt wendidau o ran mynediad at ddata sy'n helpu gyda gwaith ar anghydraddoldebau iechyd a chyfeiriodd at fylchau mewn data parhaus yn ymwneud ag ethnigrwydd ar draws y GIG yng Nghymru.[161] Dywedodd Race Council Cymru wrth y Pwyllgor fod data Cymru, yn ystod y pandemig, yn aml yn cael ei gyfuno â data Lloegr, gan ei gwneud hi'n amhosibl dadgyfuno yn ôl ethnigrwydd. Roedd hyn yn golygu nad oedd llawer o wybodaeth am gymunedau amrywiol fel pobl o Bangladesh, Affrica a'r Caribî, gan rwystro mapio ac ymateb effeithiol. Nododd Race Council Cymru fod gwyddonwyr cymdeithasol ym mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe bellach yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu data mwy manwl a phwysleisiodd y gallai rhannu'r data hwn yn amserol atal effeithiau anghymesur mewn argyfyngau yn y dyfodol.[162]

**197.** Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau dynnu sylw at y ffaith bod data a gesglir gan gyrff cyhoeddus yn tueddu i ganolbwyntio'n gul ar wendidau penodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan anwybyddu materion ehangach fel tlodi ac unigedd. Pwysleisiodd yr angen i gydnabod gwendidau ehangach, gan gynnwys ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio'n sylweddol ar wydnwch ond nad ydynt yn aml yn cael eu cofnodi.[163]

---

[160] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 12 Tachwedd 2025, paragraffau 140-6
[161] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 12 Tachwedd 2025, paragraffau 100-1
[162] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 249
[163] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 238-9

**198.** Mae Long COVID Support o'r farn nad oes digon o ymdrechion wedi'u gwneud i gasglu data ar nifer y bobl sy'n byw gyda COVID Hir yng Nghymru a defnyddio'r data hwn i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o'r goblygiadau iechyd hirdymor sy'n gysylltiedig â'r clefyd a llywio cynllunio a pharatoadau ar gyfer achosion yn y dyfodol.[164]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**199.** Cydnabu'r Prif Weinidog y brys o ran gweithredu system rheoli diogelu iechyd newydd a chadarnhaodd fod £2.2 miliwn wedi ei ddyrannu i Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni'r trawsnewidiad hwn. Mae cyflenwr wedi cael ei benodi, a disgwylir i'r system fod ar waith erbyn hydref 2026.[165] Fodd bynnag, yn niweddariad diweddaraf Llywodraeth Cymru, datgelwyd y gallai'r targed ar gyfer cyflwyno Set Data Gofal Brys Cymru gael ei ohirio y tu hwnt i'w ddyddiad targed gwreiddiol sef hydref 2026 oherwydd pwysau gweithredol.[166]

**200.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd elfen o gydredeg tra bydd y system newydd yn cael ei chyflwyno'n raddol. Cyfaddefodd swyddogion y byddai angen rhoi trefniadau dros dro ar waith rhag ofn y byddai argyfwng yn digwydd cyn i'r system newydd fod ar waith.[167]

> *"In the interim, if something did happen, we would have to develop a separate customer relationship management system to provide that scale-up if we needed it, and we're in discussion with Digital Health and Care Wales on how we would do that if we needed something in the interim."*[168]

**201.** Wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch y rhwystrau i rannu data ar draws ffiniau sefydliadol ac awdurdodaethau daearyddol, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod memorandwm o ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gyda Chanolfan Sefyllfa Genedlaethol y DU i sicrhau darpariaeth data cilyddol yn ystod

---

[164] Long COVID Support, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Ionawr 2026, paragraffau 28-35
[165] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 173
[166] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ail ddiweddariad chwe mis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, Ionawr 2026
[167] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraffau 175, 181
[168] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 175

argyfyngau, sydd, yn eu barn nhw, gan "danlinellu ymrwymiad cadarn i wneud penderfyniadau sy'n cael eu cymell gan ddata mewn cyfnodau o argyfwng."[169]

> *"There was a lot of work put into improving data flows, information sharing between departments and partners across Wales and the UK. One of the major advances was the establishment of a memorandum of understanding with the national situation centre. That's housed in Cabinet Office and that allowed a more free-flowing passing of intelligence and information to inform the response to Pegasus, but also in real-world situations."*[170]

**202.** Mae diweddariad cynnydd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar weithredu argymhellion Modiwl 1 hefyd yn nodi:

> *"Rydym wedi sefydlu tîm data, tystiolaeth a dadansoddi a fydd yn integreiddio data mewn gweithgareddau cynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt… Profwyd rôl data, tystiolaeth a dadansoddi mewn ymateb brys yn ystod Ymarfer PEGASUS, gyda'r tîm newydd yn darparu rôl gydlynu hanfodol ar draws pedair gweinyddiaeth y DU a gyda fforymau gwydnwch lleol."*[171]

**203.** Wrth ymateb i gwestiynau ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella ansawdd data cydraddoldeb i lywio eu dull o ymdrin ag argyfyngau sifil, pwysleisiodd y Prif Weinidog fod data yn ganolog i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chadarnhaodd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â sefydliadau cydraddoldeb i lywio'r gwaith hwn. Nododd y Prif Weinidog fod offeryn data yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r cynllun i gofnodi profiad bywyd pobl, a chadarnhaodd fod data cydraddoldeb y gweithlu bellach yn cael ei gasglu yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.[172]

---

[169] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ail ddiweddariad chwe mis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, Ionawr 2026
[170] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 109
[171] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ail ddiweddariad chwe mis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, Ionawr 2026
[172] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 41

## Barn y Pwyllgor

**204.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r buddsoddiad sylweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno Set Data Gofal Brys newydd Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod y gwaith sydd ar y gweill i foderneiddio systemau rheoli diogelu iechyd Cymru fel y gallant reoli digwyddiadau mawr yn effeithiol yn y dyfodol, gan gynnwys y gallu i olrhain cysylltiadau ar raddfa fawr a rhannu data gwell.

**205.** Ond ni fydd argyfyngau yn aros. Fel y nododd y Prif Weinidog, cafodd strwythurau rheoli argyfwng Cymru eu hactifadu 31 gwaith yn 2025 yn unig. Yn y cyflwyniad i adroddiad Modiwl 1, rhybuddiodd y Farwnes Hallett, Cadeirydd Ymchwiliad COVID-19 y DU hefyd:

> *"Nid yw'n gwestiwn o 'os' y bydd pandemig arall yn taro ond 'pryd'. Mae'r mwyafrif llethol o dystiolaeth i'r effaith y bydd pandemig arall – un sydd hyd yn oed yn fwy trosglwyddadwy ac angheuol o bosibl – yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol agos i ganolig."*[173]

**206.** Rydym yn parhau i bryderu nad yw mecanweithiau hanfodol a fydd yn darparu gwaith casglu, dadansoddi, rhannu a defnyddio data dibynadwy yn amserol ar gyfer llywio ymatebion i argyfyngau yn dal i fod ar waith. Yr hyn sy'n peri pryder arbennig yw, er gwaethaf cadarnhad bod y dyddiad targed ar gyfer y set ddata a'r system diogelu iechyd newydd, sef hydref 2026, yn parhau i fod ar waith, mae Llywodraeth Cymru yn cyfaddef bod risg sylweddol o hyd y gallai pwysau gweithredol eraill ohirio'r gweithrediad tan ar ôl y dyddiad hwn.

**207.** Mae chwe blynedd bellach wedi mynd heibio ers dechrau'r pandemig. Ni all Cymru fforddio unrhyw oedi pellach wrth gyflawni'r gwaith uwchraddio systemau a'r gwelliannau data hanfodol hyn, sy'n hanfodol i sicrhau ein bod wedi ein paratoi'n well ar gyfer argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol.

**Argymhelliad 25.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ar frys pa gynlluniau wrth gefn y bydd yn eu rhoi ar waith i sicrhau capasiti ymchwydd, gallu olrhain cysylltiadau torfol a mynediad amlasiantaeth os caiff y system rheoli diogelu iechyd newydd a Set Data Gofal Brys Cymru eu gohirio y tu hwnt i hydref 2026.

[173] Ymchwiliad COVID-19 y DU, Adroddiad Modiwl 1: Cadernid a pharodrwydd y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2024, tudalen ix.

**208.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau rhagweithiol i gryfhau cydweithrediad rhynglywodraethol a gwella rhannu data ar draws awdurdodaethau, a bod y trefniadau hyn wedi'u profi yn ystod Ymarfer Pegasus. Mae llofnodi memorandwm o ddealltwriaeth gyda Chanolfan Sefyllfaoedd Genedlaethol y DU i sefydlu ymrwymiadau rhannu data cilyddol yn cynrychioli enghraifft gadarnhaol ac ymarferol o gydgysylltu gwell.

**209.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu bod yn rhaid i'r gwaith hwn nid yn unig barhau ond ehangu. Pwysleisiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod cydweithrediad rhynglywodraethol effeithiol yn dibynnu ar sicrhau bod gan Gymru fynediad cynnar at y data, y dystiolaeth a'r wybodaeth arbenigol sy'n llywio ymateb y DU gyfan i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg. Tynnodd sylw at bwysigrwydd cael eu cynnwys yng nghyfarfodydd SAGE fel y gallant gyfrannu at gyngor gwyddonol amser real, ac elwa ohono, yn hytrach na bod mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt ymateb ar ôl i benderfyniadau gael eu ffurfio. Bydd cryfhau presenoldeb Cymru yn y strwythurau cynghori craidd hyn yn hanfodol i sicrhau bod canllawiau'n adlewyrchu cyd-destun deddfwriaethol datganoledig y DU a bod ymdrechion ymateb Cymru yn cael eu llywio gan y wybodaeth gynharaf posibl.

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau cynrychiolaeth gynnar a gweithredol ar fforymau cynghori gwyddonol y DU fel bod Cymru mewn sefyllfa i ddylanwadu ar ganllawiau a gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach nag ymateb ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud.

**210.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gref bod bylchau data parhaus yn parhau i rwystro gallu Cymru i baratoi ar gyfer argyfyngau sifil ac ymateb yn effeithiol iddynt. Tynnodd Iechyd Cyhoeddus Cymru sylw at wendidau sylweddol o ran mynediad at ddata sydd ei angen i ddeall a gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd, gan nodi bod bylchau mewn data ethnigrwydd ar draws GIG Cymru yn parhau i fod yn broblem hirhoedlog a chydnabyddedig. Yn yr un modd, rhoddodd y sector gwirfoddol nifer o enghreifftiau o fylchau mewn data yn ymwneud â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, sy'n atal dadgyfuno ystyrlon ac felly'n methu â rhoi cipolwg cywir ar brofiadau cymunedau penodol.

**211.** Mae'r bylchau hyn yn tanseilio gallu ymatebwyr i gynnal mapio bregusrwydd cywir, darparu ymyriadau wedi'u targedu, a rhagweld pa grwpiau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n anghymesur yn ystod argyfyngau yn y dyfodol. O ystyried y dystiolaeth glir bod data anghyflawn, anghyson ac annigonol o fanylder wedi cyfrannu at ganlyniadau anghyfartal yn ystod pandemig COVID-19, mae'r

Pwyllgor yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu mynd i'r afael â'r diffygion hyn.

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn data parhaus, gan gynnwys gwella cyflawnrwydd a manylder data cydraddoldeb ar draws GIG Cymru, ac ymgorffori dangosyddion cymdeithasol ehangach mewn setiau data gwydnwch i alluogi ymyriadau wedi'u targedu a mapio bregusrwydd mewn modd mwy cywir.

**212.** Bu'r Pwyllgor yn edrych hefyd ar elfennau ehangach o wydnwch gan eu bod yn ymwneud â'r parth digidol. Rydym yn gweld cynnydd mewn ymosodiadau seiber sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau cyhoeddus allweddol fel y GIG yn ogystal â seilwaith hanfodol.[174] Mae'r bregusrwydd hyn yn fygythiad parhaol i'n gwydnwch cenedlaethol a fydd ond yn cynyddu gyda datblygiad deallusrwydd artiffisial (AI). Yn yr un modd, mae cynnydd mewn camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein a achosir gan offer sy'n cael eu pweru gan ddeallusrwydd artiffisial yn bygwth tanseilio diogelwch cenedlaethol Cymru a'n gallu i ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd brys. Mae datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial wedi cyflymu cyflymder, graddfa a soffistigedigrwydd bygythiadau digidol, gan gynyddu eu tebygolrwydd a'u heffaith a'u gwneud yn anoddach i'w lliniaru.

**213.** Mae hefyd yn bwysig nodi bod gan ddeallusrwydd artiffisial botensial sylweddol hefyd i wella gwydnwch drwy wella ein galluoedd dadansoddi data, systemau rhybuddio cynnar, cefnogi cynllunio a modelu senarios manwl a phroffilio risg. Fodd bynnag, bydd gwireddu'r manteision hyn yn dibynnu ar Gymru yn paratoi'n ddigonol, gan sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus, ymatebwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau'r sgiliau, y strwythurau llywodraethu a'r mesurau diogelwch ar waith i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae deallusrwydd artiffisial yn eu cyflwyno wrth reoli ei risgiau cysylltiedig.

**214.** Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Seiber i Gymru[175] yn 2023, ac mae'n cael ei groesawu o ran cryfhau gwydnwch digidol Cymru. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o dderbyn diweddariad cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru ar y cynnydd yn erbyn y pedwar maes blaenoriaeth a wnaed yn y tair blynedd ers ei gyhoeddi. Fel rhan o'r diweddariad hwn, hoffai'r Pwyllgor ddeall sut mae'r cynllun wedi ystyried y datblygiadau cyflym mewn deallusrwydd artiffisial sydd wedi digwydd dros y tair blynedd ers hynny a sut mae wedi addasu i hynny.

174 BBC Cymru Fyw, Manylion personol miloedd o staff y GIG wedi eu dwyn, 13 Mawrth 2017
175 Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Seiber i Gymru, 3 Mai 2023

**215.** O ystyried y dirwedd risg ddigidol sy'n esblygu'n gyflym, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu cael mynediad at gyngor arbenigol amserol ac edrych tua'r gorwel yn rheolaidd i gynnal darlun cyfredol o fygythiadau a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y maes hwn. Felly, mae ein Pwyllgor yn dymuno gweld mwy o ffocws yn cael ei roi ar y risgiau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial a gwella ein gwydnwch digidol ehangach o fewn ein strwythurau diwygiedig.

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhaglen bwrpasol o brosesau archwilio deallusrwydd artiffisial a gwydnwch digidol fel rhan o Fframwaith Gwydnwch Cymru. Dylai'r rhaglen hon sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn effro i risgiau digidol sy'n dod i'r amlwg—gan gynnwys seiber-ymosodiadau, gwendidau systemau, a lledaenu camwybodaeth a thwyllwybodaeth—a bod Llywodraeth Cymru yn gallu cael mynediad at gyngor arbenigol amserol i gryfhau parodrwydd, a diogelu seilwaith digidol hanfodol.

# Atodiad 1: Rhestr o dystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **12 Tachwedd 2025** | **Dr Christopher Williams, Epidemiolegydd Ymgynghorol**<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>**Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr**<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>**Yr Athro Fu-Meng Khaw, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu a Sgrinio Iechyd a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol**<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| **27 Tachwedd 2025** | **Bethan Russell Williams, Prif Swyddog**<br>Cyngor Gwirfoddol Sirol Mantell Gwynedd<br>**Chris Johnes, Prif Swyddog Gweithredol**<br>yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau<br>**Clair Swales, Prif Swyddog Gweithredol**<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys<br>**Gwendolyn Sterk, Prif Swyddog Gweithredol**<br>Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru<br>**Katija Dew, Cyfarwyddwr Dros Dro**<br>Croes Goch Prydain<br>**Matthew Brown, Dirprwy Brif Weithredwr**<br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br>**Yr Athro Uzo Iwobi, Prif Weithredwr**<br>Race Council Cymru |
| **10 Rhagfyr 2025** | **Andy Swinburn, Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth,**<br>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br>**Lee Brooks, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau**<br>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br>**Craig Flannery , Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**<br>Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>**Dean Loader, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**<br>Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Anna-Louise Marsh-Rees**<br>COVID mewn Profedigaeth Teuluoedd er Cyfiawnder Cymru<br>**Sam Smith-Higgins**<br>COVID mewn Profedigaeth Teuluoedd er Cyfiawnder Cymru |
| **15 Ionawr 2026** | **Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Alyson Francis, Cyfarwyddwr, Ymchwiliad COVID-19**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andy Fraser, Prif Swyddog, Diogelwch Cenedlaethol a Gwydnwch**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Sioned Rees, Cyfarwyddwr, Diogelu Iechyd y Cyhoedd,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Teitl |
|---|---|
| **10 Tachwedd 2025** | Tystiolaeth ysgrifenedig gan Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **1 Rhagfyr 2025** | Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **2 Rhagfyr 2025** | Tystiolaeth ysgrifenedig gan COVID-19 Teuluoedd mewn Galar dros Gyfiawnder Cymru<br>▪ Atodiad 1,<br>▪ Atodiad 2,<br>▪ Atodiad 3 |
| **16 Rhagfyr 2025** | Tystiolaeth ysgrifenedig gan Triniaeth Deg i Fenywod Cymru |
| **6 Ionawr 2026** | Tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru |
| **6 Ionawr 2026** | Tystiolaeth ysgrifenedig gan Anna-Louise Marsh-Rees |
| **7 Ionawr 2026** | Tystiolaeth ysgrifenedig gan Long COVID Support |

# Atodiad 3: Cefndir deddfwriaethol a chyrff argyfyngau sifil posibl yng Nghymru

## Cefndir deddfwriaethol

**1.** Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004[176] yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer ymatebion brys gan gyrff cyhoeddus yn y DU. Creodd y Ddeddf hon ddau gategori o ymatebwyr lleol ar gyfer paratoi ac ymateb i argyfyngau:

- Mae ymatebwyr Categori 1 yn cynnwys awdurdodau lleol, gwasanaethau brys a chyrff y GIG, ac maent yn ddarostyngedig i gyfres o ddyletswyddau diogelu sifil. Cânt eu hystyried yn sefydliadau craidd wrth ymateb i argyfyngau ac yn gorfod dilyn y gyfres lawn o ddyletswyddau amddiffyn sifil, gan gynnwys asesu risg, cynllunio argyfyngau a chyfathrebu â'r cyhoedd.

- Mae ymatebwyr Categori 2 yn 'gyrff cydweithredol'. Maent yn llai tebygol o fod yn gysylltiedig â gwaith cynllunio argyfyngau posibl, ond byddant yn cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n effeithio ar eu sectorau eu hunain. Maent yn ddarostyngedig i gyfres lai o ddyletswyddau, yn bennaf i gydweithredu a rhannu gwybodaeth berthnasol ag ymatebwyr eraill.

**2.** Darparwyd egwyddorion eang ar gyfer gweithredu pwerau argyfwng yng Nghymru mewn concordat rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru[177] yn 2011.

## Trefniadaeth cyrff gwydnwch ac argyfyngau sifil posibl yng Nghymru

**3.** Mae cymysgedd o grwpiau sy'n ymwneud â chynllunio ac ymateb i drefniadau gwydnwch ac argyfyngau sifil posibl ar lefelau lleol a chenedlaethol yng Nghymru. Manylir ar rai grwpiau perthnasol isod:

**4.** Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yw'r [178]prif fecanwaith ar gyfer cydweithio amlasiantaeth ar faterion amddiffyn sifil. Mae'r fforymau'n cynnwys yr holl

---

[176] Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
[177] Llywodraeth y DU, Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004: concordat rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, Chwefror 2011
[178] Llywodraeth Cymru, Fforwm Cymru Gydnerth, Mai 2025

Ymatebwyr Categorïau 1 a 2 lleol. Mae yna bedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yng Nghymru, wedi'u trefnu ar sail ardaloedd yr Heddlu:

- Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys;
- Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gwent;
- Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gogledd Cymru;
- Fforwm Lleol Cymru Gydnerth De Cymru.

**5.** Y Prif Weinidog sy'n cadeirio Fforwm Gwydnwch Cymru. Ei bwrpas yw "i gynnig arweinyddiaeth strategol, sicrwydd a her i Bartneriaeth Gwydnwch Cymru (a'r is-grwpiau sy'n cefnogi) mewn perthynas â pharodrwydd ar gyfer argyfwng a chryfhau gwydnwch Cymru."[179].

**6.** Mae Partneriaeth Gwydnwch Cymru yn cymryd cyfeiriad strategol gan Fforwm Gwydnwch Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â Fforymau Lleol Cymru Gydnerth i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt ar lefel Cymru gyfan. Ei bwrpas yw sicrhau bod blaenoriaethau mewn perthynas â pharatoadau ar gyfer argyfyngau a chryfhau gwydnwch Cymru yn cael eu cyflawni'n effeithiol, yn effeithlon ac yn gydgysylltiedig. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn trefnu "is-grwpiau i ddatblygu gwydnwch ar draws Cymru mewn meysydd fel asesiadau risg a marwolaethau ar raddfa eang."[180].

**7.** Mae'r Pwyllgor Risg a Pharatoadau yn dwyn ynghyd uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ac yn cyfarfod yn chwarterol. Ei rôl yw datblygu darlun cyffredinol o'r sefyllfa a nodi a chyfeirio camau gweithredu i gefnogi'r ymateb lleol, rheoli risgiau a chanlyniadau sy'n dod i'r amlwg a chynghori a hysbysu Gweinidogion.[181]

**8.** Sefydlwyd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru gan Lywodraeth Cymru "i gasglu a lledaenu gwybodaeth yng Nghymru ar argyfyngau sy'n datblygu."[182].

---

[179] Llywodraeth Cymru, Fforwm Gwydnwch Cymru: cylch gorchwyl, Gorffennaf 2025
[180] Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Gwydnwch Cymru: cylch gorchwyl, Medi 2025
[181] Llywodraeth Cymru, Civil Contingencies and Resilience Arrangements in Wales – Response to COVID-19 Inquiry Module 1 – Technical Briefing to Senedd COVID-19 Inquiry Special Purpose Committee (Saesnegn yn unig), Chwefror 2025
[182] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025, Mai 2025, tudalen 63